

Law Commission
Reforming the law

# ATAFAELU ENILLION TROSEDDAU'N DILYN EUOGFARN: CRYNODEB O'N PAPUR YMGYNGHORI

## CRYNODEB

Daw atafaelu enillion troseddau gan y wladwriaeth, ar ôl cael diffynnydd yn euog, o dan Ran 2 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 ("POCA 2002"). Mae Llys y Goron yn penderfynu faint oedd enillion y diffynnydd o'r troseddau ac yn gorchymyn bod y diffynnydd yn talu swm o arian hyd at werth yr enillion troseddau hynny, gan ddibynnu ar eu modd. Gallai'r enillion fod yn filiynau neu'n gannoedd o bunnau gan ddibynnu ar faint y troseddau a gyflawnodd y diffynnydd.

Mae'r "gorchymyn atafaelu" yn orchymyn a wneir yn bersonol yn erbyn y diffynnydd i dalu swm o *arian cyfwert*h â pheth neu eu holl enillion o droseddau, gan ddibynnu ar yr asedau sydd ar gael i'r diffynnydd. Nid oes raid i'r diffynnydd droi unrhyw asedau'n arian parod i fodloni'r gorchymyn, cyn belled ag y bo'r swm o arian yn cael ei dalu.

Mae dyled atafaelu gwerth biliynau o bunnau wedi creu'r argraff fod y gyfundrefn atafaelu'n aneffeithiol.

> Ar 31 Mawrth 2019 roedd y gorchmynion atafaelu oedd heb eu talu'n werth £2,065,303,000.[1]

Mae cymhlethdod y ddeddfwriaeth hefyd, yn ôl pob golwg, wedi arwain at fod eisiau newid y sefyllfa. Mae canllaw i farnwyr ar atafaelu'n disgrifio'r nifer helaeth o ddyfarniadau apêl dros gyfnod o 11 mlynedd:

> **"Yn 2009 roedd y Rhestr Achosion yn cynnwys 177 o achosion. Mae Rhestr Achosion 2020 yn cynnwys tua 507 o achosion. Ychydig iawn o feysydd y gyfraith a welodd gymaint o ymgyfreitha mewn cyfnod mor fyr; mae efallai'n adlewyrchu nid yn unig ba mor bwysig yw'r maes cyfraith hwn, ond hefyd ei gymhlethdod deddfwriaethol."[2]**

Yn 2018, comisiynodd y Swyddfa Gartref brosiect Comisiwn y Gyfraith gyda'r amcan o ddiwygio Adran 2 o POCA 2002.[3] Mae ein papur ymgynghori'n ystyried sut y gellid gwella'r fframwaith statudol presennol gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

1. gwella'r broses o wneud gorchmynion atafaelu;
2. sicrhau bod y gyfundrefn atafaelu'n deg; a
3. optimeiddio'r broses o orfodi gorchmynion atafaelu.

Yn ystod trafodaethau cyn-ymgynghori helaeth, cynhaliwyd digwyddiadau ag unigolion a sefydliadau, yn Llundain ac ar draws y wlad. Fe wnaethom gwrdd ag asiantaethau'r llywodraeth a gorfodi'r gyfraith

[1] Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, *Datganiad Ymddiriedaeth 2018-19* (2019) HC 2337 tud. 8.


[2] HHJ M Hopmeier, *A Guide to Restraint and Confiscation Orders under POCA 2002* (2020).

[3] Mae Rhan 5 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002, sy'n delio ag adennill enillion troseddau drwy'r broses sifil, y tu allan i'n cylch gorchwyl.

(gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Twyll Difrifol, Safonau Masnach, y Gwasanaeth Insolfedd ac Asiantaeth yr Amgylchedd), ymarferwyr arbenigol ac academyddion (o'r DU ac o dramor) a phartïon budd eraill (gan gynnwys Cyngor y Bar, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ("HMCTS"), barnwyr ar bob lefel yn y farnwriaeth, a dioddefwyr troseddu). Drwy'r ymgysylltu hwn roedden ni'n gallu deall yn well yr anawsterau ymarferol wrth geisio cymhwyso'r gyfraith bresennol ynghyd ag adnabod beth oedd angen ei ddiwygio.

Rydyn ni wedi awgrymu diwygiadau i annog defnydd effeithiol o bwerau fel nad yw asedau'n cael eu gwasgaru cyn i orchymyn atafaelu gael ei wneud, a sicrhau pan wneir gorchymyn atafaelu ei fod yn adlewyrchu'n realistig beth oedd enillion y diffynnydd o'r trosedd, ac er mwyn gwella'r broses o orfodi gorchmynion atafaelu. Cafodd nifer o'r problemau sy'n codi eu cyfleu'n gryno gan randdeiliad sy'n aelod o'r farnwriaeth:

**"nid yw [atafaelu] yn cael blaenoriaeth yn y system cyfiawnder troseddol, dim ond ôl-ystyriaeth yw. Nid oes parhad ac mae perchnogaeth achosion yn broblem fawr. Mae cwnsleriaid ac eraill yn colli diddordeb drwy orfod datrys manion."**



## SUT I DRIN Y PAPUR

Mae ein papur ymgynghori wedi'i rannu'n naw rhan:

1. Rhagarweiniad, i roi'r papur ymgynghori a'r gyfundrefn atafaelu mewn cyd-destun.
2. Amcanion y ddeddfwriaeth.
3. Paratoi am y gwrandawiad atafaelu.
4. Cyfrifo "enillion".
5. Y "swm y gellir ei adennill".
6. Gorfodi'r gorchymyn.
7. Gorchmynion eraill y llys.
8. Ailystyried y gorchymyn atafaelu.
9. Diogelu gwerth asedau..

Mae gwahanol rannau'r papur ymgynghori wedi eu strwythuro i adlewyrchu'r camau y mae achos atafaelu'n eu dilyn drwy system y llysoedd. Mae'r gwahanol rannau fwy neu lai'n hunangynhwysol a gellir eu darllen ar wahân. Er ein bod yn annog partïon bud i ddarllen y papur drwyddo i ennill dealltwriaeth gyflawn o'n cynigion, rydyn ni'n cydnabod y bydd rhanddeiliaid efallai ond am ddarllen y rhannau sydd fwyaf perthnasol i'w maes diddordeb neu arbenigedd. Er enghraifft, mae'r rhan "paratoi am y gwrandawiad atafaelu" yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau gweithdrefnol a gweinyddol, a allai fod o ddiddordeb arbennig i ddarllenwyr sy'n gweithio yn y system llysoedd.[4]

Mae'r canllaw byrrach hwn yn rhoi trosolwg ar ein cynigion amodol sylfaenol a hefyd wedi'i rannu i adlewyrchu gwahanol rannau'r papur. Fel gyda'r papur ymgynghori ei hun, anogwn ddarllenwyr i ddarllen y ddogfen i gyd. Fodd bynnag, gellir darllen y rhannau'n unigol fel bod darllenwyr yn gallu canolbwyntio ar y rhannau o'r gyfundrefn atafaelu sydd fwyaf perthnasol i'w maes diddordeb neu arbenigedd.

Gwahoddwn ymgyngoreion i gyflwyno eu barn am ystod eang o faterion yn ymwneud â'r gyfundrefn atafaelu. Mae cwestiynau manwl a phenodol i'w cael yn y papur ymgynghori ei hun. Mae yna hefyd gwestiynau ymgynghori cryno, yn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau ymgynghori cryno yn y ddogfen hon yn fwy cyffredinol a'u bwriad yw adlewyrchu cynnwys ein papur ymgynghori'n fwy cyffredinol. Gwahoddir ymgyngoreion i ymateb i gynifer neu gyn lleied o'r cwestiynau ag y dymunant, p'un ai i'r cwestiynau mwy cyffredinol yn y crynodeb hwn, neu i'r cwestiynau mwy manwl yn y papur ymgynghori ei hun.

I weld adroddiad llawn yr ymgynghoriad, ac i ymateb i'r ymgynghoriad, **cliciwch yma**.

[4] Er enghraifft, ym mhennod 7 rydym yn gwneud cynigion dros dro sy'n ymwneud ag amserlenni atafaelu.

## RHAN 1: RHAGARWEINIAD

Yn Rhan 1 y papur ymgynghori, rhown ein prosiect a'r gyfundrefn atafaelu o dan POCA 2002 mewn cyd-destun. Trafodwn hanes y gyfundrefn atafaelu gan amlinellu sut y mae'r gyfundrefn yn gweithio. Trafodwn hefyd y Cynllun Cymhellion Adennill Asedau ("ARIS").

Sefydlwyd ARIS yn 2006. Amcan y cynllun yw "rhoi cymhellion i bartneriaid gweithredol i fynd ati i adennill asedau fel rhan o gyfrannu at y nod cyffredinol o leihau troseddu a darparu cyfiawnder."[5] Mae'r asiantaethau gweithredol hyn yn derbyn cyllid ar sail eu cyfraniad cymharol at adennill asedau. Rhennir y cyllid rhwng asiantaethau ymchwilio, erlyn a gorfodaeth.[6] O ran yr arian sy'n cael ei atafaelu, mae 18.75% yn cael ei ddyrannu i'r asiantaethau ymchwilio ac erlyn sy'n cymryd rhan.[7]

Er nad yw'r cynllun ARIS yn rhan o gylch gwaith ein hadolygiad, mae pennod wedi'i neilltuo iddo yn y Papur Ymgynghori oherwydd:

1. byddai'n amhosib ystyried y fframwaith atafaelu heb ddeall y cynllun hwn sydd wrth wraidd ei holl weithrediad. Mae felly'n rhoi cyd-destun pwysig i'n gwaith.
2. mae wedi dylanwadu ar weithrediad ymarferol y gyfundrefn atafaelu a'i gweithrediad gan yr asiantaethau.
3. mae hyn wedi bod yn destun beirniadaeth.
4. mae'r model ariannu presennol wedi tywys a goleuo peth o'r ymateb a gawsom yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori. Mae'n ddealladwy bod yn rhaid i randdeiliaid sy'n gweithio o fewn cyfyngiadau ariannol edrych ar unrhyw newid deddfwriaeth drwy chwyddwydr adnoddau.
5. mae'r egwyddor o fod yn dryloyw'n gofyn cydnabod y pwysau sy'n cael eu creu gan gynllun cymhellion yn y cyd-destun hwn.

Dewis gwleidyddol yn hytrach na phenderfyniad cyfreithiol fyddai unrhyw ddiwygiad. Fodd bynnag, ym Mhennod 4 nodwn ganlyniadau cyfreithiol y cynllun ARIS yn glir, yn bennaf y posibilrwydd o wrthdaro budd (neu o leiaf yr argraff o hynny) yn codi o benderfyniadau'r erlyniaeth. Fel y dywedodd yr Arglwyddes Ustus Hallett, Is-Lywydd Adran Droseddol y Llys Apêl:

[5] Y Swyddfa Gartref, *Adolygiad o'r Cynllun Cymhellion Adennill Asedau* (Chwefror 2015).

[6] Rhennir yr arian fel a ganlyn - 18.75% i asiantaethau ymchwilio, 18.75% i asiantaethau erlyn a 12.5% i asiantaethau gorfodaeth.

[7] Nid yw'r Swyddfa Twyll Difrifol yn cymryd rhan yn y cynllun ARIS.

"Efallai y bydd rhai'n synnu bod rhai awdurdodau efallai'n erlyn elwa'n ariannol o'u penderfyniad i erlyn....lle mae gwrthdaro budd yn bosib, sef mantais ariannol i'w hennill o ganlyniad yr erlyniad, a mesur hyn yn erbyn y gwrthrychedd sydd ei angen gan erlynydd, rhaid i'r erlynydd fod mor ofalus i osgoi unrhyw argraff o duedd. Ni ddylai'r posibilrwydd o wneud gorchymyn POCA o blaid yr erlynydd chwarae unrhyw ran mewn penderfynu'r prawf tystiolaeth a budd y cyhoedd o dan y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron."[8]

Clywsom gan nifer sylweddol o randdeiliaid fod yna ddadl gref dros ailystyried sut y mae'r arian sy'n cael ei gasglu o atafaelu'n cael ei ddosbarthu. Byddai hyn yn gwneud i ffwrdd â'r posibilrwydd o wrthdaro budd a'r argraff o wrthdaro budd, gan sicrhau bod gorchmynion atafaelu realistig a gorfodadwy'n cael eu gwneud.

Bydd y cynllun ARIS yn cael ei ailystyried fel rhan o gynlluniau'r Llywodraeth i ddatblygu model adnoddau cynaliadwy, hirdymor i ymateb i droseddau economaidd.[9] Diau y bydd yr adolygiad am ystyried y materion a godir yn y bennod hon.

[8] *Wokingham Borough Council v Keith Scott ac eraill* [2019] EWCA Crim 205, [2020] 4 WLR 2, para 62-63.

[9] Llywodraeth EM, Economic Crime Plan 2019-22 (Gorffennaf 2019), para 5.20.

## RHAN 2: AMCANION Y DDEDDF

Yn Rhan 2 o'r Papur Ymgynghori, trafodwn yr ystyriaethau a ddylai dywys y llys wrth ymarfer ei bwerau. Yn benodol, edrychwn ar y gofyniad bod yn rhaid i orchymyn atafaelu fod yn "gymesur" ag amcanion y ddeddfwriaeth. Nodwn bedwar amcan a fu'n gysylltiedig â'r gyfundrefn atafaelu:

1. cymryd yr elw neu'r enillion o droseddu;
2. cosbi;
3. atal a tharfu ar weithgarwch troseddol; a
4. rhoi iawndal i'r dioddefwyr.

Dywedodd randdeiliaid wrthym nad oes unrhyw eglurder ynghylch a fwriedir i unrhyw neu bob un o'r amcanion hyn fod yn amcanion i'r gyfundrefn atafaelu, ac os ydynt, beth ddylai eu blaenoriaeth gymharol fod. Ystyriwn fod angen eglurder i helpu'r llys wrth benderfynu a yw gorchymyn atafaelu'n gymesur ai peidio, ac wrth ymarfer ei bwerau o dan y gyfundrefn atafaelu'n fwy cyffredinol.

Ym Mhennod 5 y Papur Ymgynghori, cynigiwn yn amodol fel a ganlyn:

1. y dylid disgrifio amcanion y gyfundrefn atafaelu'n glir yn y ddeddf.
2. y prif amcan ddylai fod i amddifadu'r diffynnydd o enillion eu hymddygiad troseddol, o fewn cyfyngiadau modd y diffynnydd.
3. dylai'r prif amcan gael ei ategu gan is-amcanion, sef atal a tharfu ar droseddu, a sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn iawndal (lle mae'r iawndal yn cael ei dalu allan o arian wedi'i atafaelu).

Mae'r llys weithiau wedi mynegi barn ranedig ynghylch a yw cosbi'n un o amcanion y gyfundrefn atafaelu. Ein barn amodol yw'r un farn sydd gan y Goruchel Lys sef "mae angen amodi unrhyw gyfeiriad at gosbi".[10]

Bydd diffynnydd y gwneir gorchymyn atafaelu yn eu herbyn hefyd yn cael eu dedfrydu. Pwrpas y ddedfryd honno (ymhlith pethau eraill) yw cosbi, a bydd natur a hyd y ddedfryd yn adlewyrchu euogrwydd y diffynnydd mewn cyflawni'r trosedd. Er bod atafaelu'n gallu cael effeithiau llym, ni fwriedir iddo gosbi ddwywaith ar sail euogrwydd. Yn hytrach, ei bwrpas yw cymryd enillion troseddol y diffynnydd oddi arnynt.

[10] *R v Waya* [2012] UKSC 51, [2013] 1 AC 294 yn [2].

I adlewyrchu'r casgliad amodol hwn a rhoi eglurder i'r negeseuon cymysg sy'n dod o'r llysoedd bod cosb yn un o amcanion y gyfundrefn, cynigiwn yn amodol fod cosbi'n cael ei adael allan o amcanion statudol atafaelu.

Ni ddylai cyfundrefn sy'n mynd dim pellach na fo angen i ddal y diffynnydd i gyfrif am enillion ariannol eu trosedd gael ei gweld fel cyfundrefn nad yw'n ddigon "caled ar droseddu". Mewn geiriau syml, byddai unrhyw un yn gweld diffynnydd yn cerdded allan o'r carchar heb unrhyw beth i'w ddangos am eu troseddau'n dueddol o ofyn y cwestiwn a oedd eu trosedd "yn werth o"?

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 1**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno:

1. y dylai'r gyfraith nodi'n glir mewn datganiad beth yw amcanion statudol y gyfundrefn atafaelu?
2. y dylai'r amcanion statudol fod fel a ganlyn:
   a. y prif amcan o amddifadu'r diffynnydd o enillion eu hymddygiad troseddol, o fewn cyfyngiadau modd y diffynnydd;
   b. is-amcanion fel a ganlyn:
      i. atal a tharfu ar weithgarwch troseddol; a
      ii. talu iawndal i ddioddefwyr (lle mae'r iawndal yn cael ei dalu allan o arian wedi'i atafaelu)?



## RHAN 3: PARATOI AM Y GWRANDAWIAD ATAFAELU

Yn Rhan 3 y Papur Ymgynghori, ystyriwn gamau rhagarweiniol y broses atafaelu. Mae'r penodau hyn yn adnabod beth a ystyriwn i fod yn broblemau cyffredinol gyda'r broses weithredol o reoli a pharatoi gwrandawiad atafaelu..

### Gohirio

Yn wreiddiol, ystyriwyd y byddai gorchymyn atafaelu'n cael ei wneud cyn i ddiffynnydd gael eu dedfrydu a drafftiwyd y gyfraith gyda'r drefn hon o ddigwyddiadau mewn golwg.[11] Fodd bynnag, sylweddolwyd yn fuan fod achosion atafaelu'n aml yn trafod materion cymhleth (fel penderfynu budd unrhyw drydydd partïon mewn asedau) sy'n cymryd amser i'w datrys. Roedd penderfynu ar atafaelu cyn dedfrydu'n arwain, mewn rhai achosion, at oedi sylweddol cyn gallu gweithredu'r ddedfryd.

I geisio datrys y mater hwn, mae POCA 2002 yn darparu bod atafaelu'n gallu digwydd ar ôl dedfrydu diffynnydd. Ym Mhennod 6 y Papur Ymgynghori, ystyriwn y broses hon o 'ohirio' achosion atafaelu. O dan y gyfraith fel y saif ar hyn o bryd, rhaid cwrdd â chyfres o ofynion technegol pan fydd atafaelu'n cael ei ohirio. Er enghraifft, mae unrhyw gyfnod gohirio wedi'i gyfyngu i ddwy flynedd ar y mwyaf. Ni ellir ychwaith gwneud gorchmynion ariannol a fforffedu wrth ddedfrydu, os yw atafaelu'n cael ei ohirio. Disgrifiwyd y rheol yn erbyn gwneud gorchmynion ariannol a fforffedu fel:

> **"trap y gall hyd yn oed y barnwyr llys mwyaf medrus a phrofiadol ddisgyn iddo".[12]**

Mae'r llysoedd apêl wedi ystyried droeon achosion o afreoleidd-dra gweithdrefnol yn ymwneud â'r gofynion gohirio hyn. Yn ystod un achos apêl o'r fath, hyn oedd sylw'r Goruchel Lys:

> efallai y bydd Comisiwn y Gyfraith eisiau ystyried "y ffordd orau o ddarparu'n realistig ar gyfer ym mha drefn y dylai dedfrydu ac atafaelu fod a statws y gofynion gweithdrefnol yn y Ddeddf".[13]



[11] Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, a. 72(4).

[12] *R v Guraj* [2016] UKSC 65, [2017] 1 WLR 22 yn [11].

[13] *R v Guraj* [2016] UKSC 65; [2017] 1 WLR 22 yn [36].

## Cwestiwn Ymgynghori Cryno 2

Cynigiwn yn amodol fod y gyfraith yn cael ei symleiddio a'i gwneud yn gliriach fel a ganlyn:

1. Y dylai'r ddeddfwriaeth nodi'n glir bod angen i ddedfrydu ddigwydd cyn penderfynu ar atafaelu oni bai fod y llys yn cyfarwyddo fel arall.
2. Y dylai fod gan y llys ddisgresiwn i roi cosb ariannol a gwneud gorchmynion fforfedu cyn penderfynu'r achos atafaelu. Byddai hyn yn caniatáu dyfarnu iawndal yn gynt yn y broses nag ar hyn o bryd, a fyddai'n beth da i ddioddefwyr. Gallai methu â thalu gorchymyn iawndal erbyn gwrandawiad atafaelu a fyddai'n cael ei gynnal nes ymlaen helpu'r llys i benderfynu a fyddai diffynnydd yn debygol o gydweithredu i dalu unrhyw orchymyn atafaelu, ac felly'n goleuo'r penderfyniad ynghylch gorfodi'r gorchymyn atafaelu.[14]
3. Lle gwneir gorchymyn ariannol neu orchymyn arall wrth ddedfrydu a chyn penderfynu'r achos atafaelu, bydd angen i'r llys ystyried y gorchymyn wrth benderfynu'r achos atafaelu.
4. Bod cyfnod o chwe mis ar y mwyaf rhwng dedfrydu diffynnydd a gosod amserlen ar gyfer atafaelu.[15] Bydd hyn yn disodli'r system bresennol seiliedig ar ohirio.
5. Gellid ymestyn yr uchafswm cyfnod statudol o chwe mis mewn amgylchiadau eithriadol. Lle daw'r cyfnod o chwe mis i ben, ni fyddai'r llys yn colli'r awdurdod i wneud gorchymyn, ond gallai wrthod wneud gorchymyn pe bai'n annheg gwneud hynny. Fodd bynnag, cyn gwrthod gwneud gorchymyn, rhaid i'r llys yn gyntaf ystyried a fyddai'n bosib ateb unrhyw annhegwch drwy fesurau heblaw gwneud gorchymyn atafaelu.

Ar ôl gosod amserlen, dylai'r llys reoli'r achos yn weithredol. Fel ar hyn o bryd, rhaid penderfynu'r achos o fewn amser rhesymol. A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

[14] Wele Bennod 21, lle trafodwn ein cynigion amodol i roi pŵer i'r llys i wneud gorchmynion gorfodaeth "dibynnol" yn y gwrandawiad atafaelu os yw'r diffynnydd yn debygol o wrthod talu'n fwriadol, neu o fod yn esgeulus ar fai'n methu â thalu'r gorchymyn atafaelu dros unrhyw gyfnod o amser a roddir i dalu.

[15] Neu, mewn achosion priodol, rhwng y dedfrydu a'r llys yn hepgor bod angen amserlen.

## Amserlen a rheoli achosion

O dan POCA 2002, unwaith y mae Llys y Goron neu'r erlyniad wedi penderfynu symud ymlaen at achos atafaelu, y cam nesaf yw amserlen a rheoli'r achos atafaelu. Ym Mhennod 7 y Papur Ymgynghori, trafodwn dri pheth a gododd dro ar ôl tro yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori:

1. bod achosion atafaelu'n cael eu gadael i "ddrifftio" yn lle bod yn destun ymgysylltu a rheolaeth weithredol;
2. mai pur anaml, os byth, y mae sancsiynau am beidio â chydymffurfio â gorchmynion i gyfnewid gwybodaeth mewn achosion atafaelu yn cael eu gorfodi, sy'n ychwanegu at yr argraff bod achosion atafaelu'n cael eu gadael i "ddrifftio"; a
3. bod y wybodaeth sy'n cael ei chyfnewid yn aml yn gymysgedd dryslyd o blediadau a thystiolaeth gan ychwanegu at y cymhlethdod a'r diffyg eglurder.

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 3

Cynigiwn yn amodol fel a ganlyn:

1. Y dylid ymgorffori amserlenni arferol ar gyfer achosion atafaelu "cyffredin" a rhai "cymhleth" yn y Rheolau Gweithdrefnau Troseddol, sy'n cyflwyno amserlenni ar gyfer darparu gwybodaeth.
2. Y dylai'r amserlen ar gyfer achosion "cyffredin" ddefnyddio cyfnod o 28 diwrnod. Dylai'r amserlen ar gyfer achosion "cymhleth" ddefnyddio dwbl y cyfnod hwn (56 diwrnod).
3. Y dylai fod gan lys y pŵer i wyro o'r amserlen arferol er budd cyfiawnder, er enghraifft lle mae'n glir o'r dechrau y byddai'r amserlen yn afrealistig o ystyried yr holl amgylchiadau.
4. Y dylai fod yn ofynnol i farnwyr roi rhybudd clir ynghylch beth fyddai canlyniad peidio â chydymffurfio â'r amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth.
5. Y dylai'r wybodaeth a gyfnewidir gynnwys plediadau, datganiadau ac eitemau arddangos ar wahân.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?



## Penderfynu Achosion Atafaelu'n Gynnar (EROC)

Er nad oes trefn ffurfiol i hwyluso cytuno ar orchmynion atafaelu, derbynnir bod gorchmynion a gytunwyd yn rhan o'r gyfundrefn atafaelu. Yn ystod ein cam canfod ffeithiau, clywsom dystiolaeth gan ymarferwyr ac ymchwilwyr ariannol fod y llysoedd yn tueddu'n gynyddol i annog cwnsleriaid yn weithredol i gytuno gorchmynion atafaelu y tu allan i'r llys, cyn gofyn am ganiatâd barnwrol. Mae'r Llys Apêl wedi disgrifio'r arfer o "drafod a negodi" mewn achosion atafaelu fel un "cyfarwydd".[16]

Ym Mhennod 8 y Papur Ymgynghori, nodwn nifer o fanteision sy'n gysylltiedig â dod i gytundeb cyn y gwrandawiad atafaelu:

1. Mae cytuno ar faterion atafaelu cyn belled ag y bo hynny'n bosib yn hwyluso proses effeithiol o wneud gorchmynion atafaelu realistig.
2. Os na ellir cytuno, mae gan y broses o geisio dod i gytundeb fanteision er hynny, o ran bod modd adnabod a chyfyngu'r materion yn yr achos sydd angen eu datrys a'u penderfynu.
3. O dan y system bresennol o gytundebau anffurfiol, mae'r diffynyddion yn aml yn honni ar apêl na wyddent am rai agweddau ar y cytundeb neu am ganlyniadau gwneud y cytundeb. Byddai gan broses ffurfiol o geisio cytundeb y fantais bod unrhyw gytundeb terfynol yn cael ei gyrraedd ar ôl i'r holl randdeiliaid perthnasol ei ystyried yn ddyledus.
4. Os oes gan ddiffynnydd lais yn y gorchymyn a wneir, mae'n debygol o arwain at orchymyn mwy realistig a gorfodadwy nag un sy'n cael ei orfodi'n unochrog.

Cynigiwn felly broses newydd o Benderfynu Achosion Atafaelu'n Gynnar ("EROC"), i ddigwydd ar ôl cyfnewid gwybodaeth a chyn i wrandawiad atafaelu gael ei restru, er mwyn hwyluso penderfynu'r achos atafaelu'n gynnar.

I sicrhau tryloywder, cynigiwn yn amodol fod unrhyw gytundeb yn destun craffu a sêl bendith barnwrol i sicrhau ei fod yn deg, rhesymol a chymesur yng ngoleuni amcanion y ddeddfwriaeth. Ystyriwn hefyd y gallai cod ymddygiad ar gyfer erlynwyr a fyddai'n rhan o'r broses EROC fod yn fanteisiol, tebyg i'r cod ymddygiad presennol ar gyfer negodi cytundebau erlyn gohiriedig..

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 4

A yw ymgyngoreion yn cytuno bod angen cyflwyno cam newydd yn y broses atafaelu sef Penderfynu Achosion Atafaelu'n Gynnar (EROC), mewn dau gam:

1. cyfarfod EROC lle dylai'r partïon geisio setlo'r gorchymyn atafaelu, ac os na fyddai'n bosib cytuno ar setlo'r gorchymyn atafaelu, y dylid adnabod y materion perthnasol i'w penderfynu mewn gwrandawiad atafaelu.
2. gwrandawiad EROC lle dylai'r barnwr ystyried cymeradwyo unrhyw gytundeb, neu heb unrhyw gytundeb, lle byddai'r broses o reoli'r achos yn cael ei gweithredu?

[16] *R v Ghulam* [2018] EWCA Crim 1619, [2019] 1 WLR 534 yn [21].

## Fforwm

Wrth benderfynu achosion atafaelu, gofynnir yn aml i farnwyr llysoedd troseddol arbenigol roi sylw i faterion sy'n disgyn ymhell y tu allan i fusnes dydd i ddydd y llysoedd troseddol. Gofynnir i farnwyr benderfynu materion yn ymwneud â chyfraith deuluol, eiddo priodasol a materion masnachol, ecwiti ac eiddo eraill mwy cyffredinol. Ym Mhennod 10 y Papur Ymgynghori gwnawn gyfres o argymhellion er mwyn gallu hwyluso penderfynu achosion yn ddiymdroi a thrylwyr pan fydd materion fel hyn yn codi. Er enghraifft, cynigiwn yn amodol fel a ganlyn:

1. y dylid ystyried sefydlu cronfa o farnwyr sydd wedi eu hyfforddi a'u hawdurdodi (neu gyda thiced) i ddelio ag achosion atafaelu cymhleth.
2. y dylid caniatáu i'r barnwr alw ar brofiad asesydd arbenigol, ar yr amod na fyddai gan y partïon wrthwynebiad.
3. y gallai Llys y Goron gyfeirio mater mewn achos atafaelu at yr Uchel Lys am benderfyniad terfynol.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 5**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno, mewn achosion atafaelu cymhleth, y byddai:

1. defnyddio barnwyr gyda thiced;
2. defnyddio aseswyr arbenigol; a / neu
3. cyfeirio mater at yr Uchel Lys i wneud penderfyniad terfynol arno

yn helpu i sicrhau bod achosion yn cael eu penderfynu'n gyfiawn ac effeithlon?



## RHAN 4: ENILLION

O dan POCA 2002, mae cael gafael ar gyfoeth, adnoddau neu eiddo drwy drosedd, a'r fantais ariannol o ganlyniad i'r troseddwr, yn cael ei alw'n "enillion". Ystyriwn "enillion" yn Rhan 4 y Papur Ymgynghori.

Mae gan adnabod a chyfrifo "enillion" arwyddocâd gwirioneddol drwy gydol y broses atafaelu ac ar ôl hynny. Bydd angen i ddiffynyddion dalu'r "enillion" hyn yn ôl yn llawn, os oes ganddynt fodd i wneud hynny. Os nad oes ganddynt fodd i dalu'r enillion yn ôl yn llawn pan wneir gorchymyn atafaelu, gall y llys orchymyn iddynt wneud yn y dyfodol;

> **"Mae asesiad o enillion yn cyflwyno dyled gydol oes bod y diffynnydd i'w talu'n ôl, os yw eu sefyllfa ariannol yn caniatáu."[17]**

### Diffinio enillion

Mae'r ffordd y mae enillion yn cael eu diffinio ar hyn o bryd wedi'i beirniadu'n llym oherwydd:

1. mae'n cymhwyso cyfraith eiddo sifil i gyfundrefn sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol; a
2. mae'n cael ei ganfod i fod yn arwain at orchmynion atafaelu afrealistig a hynod gosbol nad ydynt yn adlewyrchu beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei ystyried i fod yn "enillion troseddol" diffynnydd.

Ystyriwyd yn ofalus sut y diffinnir "enillion troseddol" gan edrych ar gyfundrefnau atafaelu blaenorol a phrofiad gwledydd eraill. Ym Mhennod 12 y Papur Ymgynghori, cynigiwn yn amodol fod trefn newydd yn cael ei dilyn lle byddai'r llys yn ystyried dau beth:

1. Beth "enillodd" y diffynnydd o ganlyniad i, neu'n gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol; a
2. Bwriad y diffynnydd gyda'r enillion hynny.

Mae "enillion" ("gain" yn Saesneg) yn derm a ddefnyddiwyd ers tro byd yng nghyd-destun cyfraith droseddol, ac a ddiffiniwyd yn syml fel "cadw'r hyn sydd gennych, yn ogystal â... chael yr hyn nad oes gennych".[18] Fel term newydd yng nghyd-destun atafaelu, byddai'n dod heb y cysylltiad etifeddol â nifer fawr o gyfraith achosion a geisiodd gymhwyso egwyddorion cyfraith eiddo i atafaelu a lle defnyddiodd y llysoedd beth wmbreth o eithriadau a chafeatau i geisio sicrhau'r canlyniad "iawn".[19]

Efallai fod diffynnydd wedi ennill rhywfaint o arian, ond gyda'r bwriad efallai o ymarfer dim ond rhywfaint o bŵer dros reoli neu wario'r arian hwnnw, er enghraifft oherwydd eu bod yn yrrwr fan sy'n cael eu talu i symud yr arian o un lle i'r llall. Drwy edrych ar fwriad y diffynnydd mewn cysylltiad â'r enillion, bydd llys mewn sefyllfa well i wneud penderfyniad rhesymol ynghylch beth yn union "enillodd" y diffynnydd o'r trosedd.

---

[17] A Campbell-Teich, "Whither confiscation: May Revisited" [2019] 5 *Archbold Review* 4

[18] Deddf Twyll 2006, a. 5(3). Wele hefyd Ddeddf Lladrata 1968, a.34. Er, dylid nodi bod y geiriad a ddefnyddir yn adran 34 fymryn yn wahanol i'r geiriad a ddyfynnir o Ddeddf Twyll 2006.

[19] Mae hyn er gwaetha'r diffyg disgresiwn a roddir i'r llys oherwydd telerau penodol y ddeddfwriaeth.

## Cwestiwn Ymgynghori Cryno 6

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno, wrth benderfynu ar "enillion" diffynnydd, y dylai'r llys:

1. Penderfynu beth enillodd y diffynnydd o ganlyniad i neu mewn cysylltiad â'r ymddygiad troseddol y cafwyd ef neu hi'n euog ohono; a
2. Gwneud gorchymyn bod enillion y diffynnydd cyfwerth â'r budd hwnnw, oni bai fod y llys yn fodlon y byddai'n anghyfiawn gwneud hynny oherwydd bwriad y diffynnydd o gael rheolaeth dros neu bŵer cyfyngedig i werthu'r budd hwnnw?




## Enillion mewn achosion ffordd o fyw droseddol

Os dyfarnir bod gan ddiffynnydd "ffordd o fyw droseddol", ni chyfyngir eu "henillion" troseddol i'r hyn a gawsant o'r troseddau yr oeddent yn ymddangos o flaen y llys amdanynt. Yn hytrach bydd y llys yn ystyried unrhyw enillion a gawsant o'u "hymddygiad troseddol cyffredinol" ehangach.

Gallai ymchwiliad i'r enillion hyn fod yn eang iawn mewn achos yn ymwneud ag ymddygiad troseddol cyffredinol. Byddai ceisio penderfynu'r holl enillion a ddaeth i ddwylo diffynnydd o ganlyniad i'w holl weithgarwch troseddol yn anodd iawn. Rhaid felly i'r llys wneud tybiaethau wrth ystyried beth yw enillion diffynnydd o ganlyniad i'w hymddygiad troseddol cyffredinol. Bydd angen i'r llys edrych yn ôl chwe blynedd cyn dechrau'r achos a arweiniodd at yr euogfarn gan dybio bod yr holl eiddo ym meddiant y diffynnydd ers hynny wedi dod o droseddu, oni bai y gall dangos fel arall.

Oherwydd bod cyfrifo'r enillion hyn yn golygu mwy na'r enillion o'r troseddau y daeth y diffynnydd o flaen y llys amdanynt, gelwir hyn weithiau'n "atafaelu estynedig".[20]

Ym Mhennod 13 y Papur Ymgynghori, ystyriwn a yw'r troseddau "ysgogi" sy'n gallu arwain at benderfynu bod gan y diffynnydd "ffordd o fyw droseddol" yn briodol. Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, gofynnwyd i ni ystyried cynnwys nifer o droseddau yn y rhestr o droseddau "ysgogi" sydd ar hyn o bryd yn Atodlen 2 POCA 2002. Rydyn ni wedi ystyried yn ofalus y dadleuon o blaid ac yn erbyn, gan gynnwys y troseddau yn yr Atodlen.

[20] Penderfyniad Fframwaith ar Atafaelu Enillion, Adnoddau ac Eiddo Cysylltiedig â Throseddu 2005/212/ JHA, Cyfnodolyn Swyddogol L 68/49; Cyfarwyddeb ar rewi ac atafaelu adnoddau ac enillion troseddau yn yr Undeb Ewropeaidd 2014/42/EU, Cyfnodolyn Swyddogol L 127/39.

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 7

A yw ymgyngoreion yn cytuno â'n casgliadau amodol ynghylch yr atodlen o droseddau sy'n ysgogi darpariaethau "ffordd o fyw droseddol":

1. na ddylid ei diwygio i ychwanegu:
   a. troseddau twyll;
   b. troseddau llwgrwobrwyo; a
   c. y trosedd gwyngalchu arian yn adran 329 o ddeddf POCA 2002.
2. na ddylid ei diwygio i ychwanegu'r trosedd o "gadw puteindy ar gyfer puteindra", yn groes i adran 33A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956?

Gellid hefyd penderfynu bod gan ddiffynnydd "ffordd o fyw droseddol" os cafwyd hi neu ef yn euog o nifer benodol o droseddau, p'un ai unwaith neu droeon o flaen y llys. I fod â "ffordd o fyw droseddol", rhaid i'r enillion cronnus fod yn £5,000. Disgrifiwyd y gyfraith yn y cyswllt hwn fel

## "hurt a diangen o gymhleth."[21]

Gwahoddwn eich barn a gwnawn hefyd nifer o gynigion amodol ynghylch sut i wneud y ddarpariaeth hon o ran beth sy'n ysgogi ffordd o fyw droseddol yn symlach a mwy effeithiol.

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 8

Gwahoddwn ymgyngoreion i roi eu barn am y materion canlynol:

1. Faint o droseddau ddylai diffynnydd fod wedi eu cyflawni i ysgogi dyfarniad o "ffordd o fyw droseddol"?
2. A ddylid codi'r trothwy ariannol o £5,000, ac os felly i faint?
3. A yw'r ymgyngoreion yn cytuno â'n casgliad amodol y dylai'r troseddau sy'n berthnasol i ysgogi "ffordd o fyw droseddol" gynnwys:
   a. euogfarnau; a
   b. troseddau eraill na chafwyd y diffynnydd yn euog ohonynt ond lle mae ef neu hi'n gofyn i'r llys eu "cymryd i ystyriaeth" yn ffurfiol wrth ddedfrydu?
4. A yw'r ymgyngoreion yn cytuno gyda'n casgliad amodol y dylid caniatáu i'r llys ystyried troseddau yr elwodd y diffynnydd yn ariannol ohonynt, a hefyd droseddau lle mae'r diffynnydd wedi ceisio elwa'n ariannol ohonynt, fel rhai perthnasol i ddyfarnu bod gan ddiffynnydd ffordd o fyw droseddol? Er enghraifft, a ddylai diffynnydd sy'n cyflawni tri lladrad o dai ac sy'n cael eu stopio ar ganol y pedwerydd lladrad, gael eu trin fel bod ganddynt "ffordd o fyw droseddol"?

[21] Rudi Fortson QC, Misuse of Drugs and Drug Trafficking Offences, (6ed arg. 2012) t. 655.

O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, roedd yn rhaid i erlynydd ddewis cymhwyso'r tybiaethau ffordd o fyw. Roedd gan y llys hefyd ddisgresiwn i gymhwyso'r tybiaethau dim ond lle'r oedd yn ystyried bod hynny'n briodol. Gwnaed i ffwrdd â'r disgresiwn hwn yn y gyfundrefn atafaelu o dan POCA 2002. Er y gallai'r llys ddatgymhwyso tybiaeth lle byddai'n arwain at risg ddifrifol o anghyfiawnder,[22] mae'r disgresiwn hwn wedi cael ei ddadansoddi'n gul.

Cawsom wybod yn ystod y trafodaethau cyn-ymgynghori bod yr erlyniad weithiau'n diystyru natur orfodol y tybiaethau er mwyn sicrhau canlyniad realistig a chymesur, er enghraifft lle mae'r diffynnydd yn amlwg ond wedi ymwneud ag un drosedd neu lle mae'r diffynnydd yn fethdalwr a heb unrhyw asedau y gellid eu gwerthu tuag at y gorchymyn ar ôl ymchwiliad manwl. Os yw erlynwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt gymryd camau i sicrhau canlyniad cyfiawn, er gwaethaf geiriad y ddeddfwriaeth, awgryma hyn nad yw'r ddeddfwriaeth wedi'i geirio'n briodol.

Ymddiriedwn mewn erlynwyr i ymarfer eu barn a'u crebwyll wrth benderfynu dod ag achos troseddol gerbron neu beidio, ar ôl pwyso a mesur gwahanol ffactorau budd y cyhoedd. Ystyriwn nad oes rheswm pam na ddylid ymddiried mewn erlynwyr i ymarfer crebwyll a barn o'r fath wrth gymhwyso'r tybiaethau.

Ystyriwn hefyd y byddai'n briodol ailgyflwyno pŵer barnwrol i ystyried a fyddai'n anghyfiawn cymhwyso'r tybiaethau. Mae gan farnwyr eisoes ddisgresiwn i ystyried anghyfiawnder yng nghyswllt pob tybiaeth unigol, ond nid y tybiaethau'n gyffredinol. Nid yw'r gyfraith fel y saif ar hyn o bryd yn caniatáu ystyriaeth "pen-blaen" ynghylch a ddylid cymhwyso'r tybiaethau o gwbl.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 9**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno y dylai'r cwestiwn a ddylai'r "tybiaethau ffordd o fyw" fod yn berthnasol fod yn destun disgresiwn priodol gan yr erlyniad a'r farnwriaeth?

## Codeiddio ac egluro'r gyfraith achosion ar enillion

Ers cyflwyno POCA 2002 mae dros gant o benderfyniadau apêl wedi eu gwneud yng nghyswllt cyfrifo enillion. Mae'r llysoedd apêl wedi nodi'n glir eu bod yn gwbl rwystredig gyda'r nifer fawr o achosion atafaelu sy'n dod ger eu bron. Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, cawsom wybod fod y corff cynyddol o gyfraith achosion yn achosi ansicrwydd yn y gyfraith gan arwain at orchmynion heb gael eu gwneud yn briodol na'n gywir, yn enwedig lle mae'n ofynnol i farnwyr troseddol "groesi drosodd" i ystyried achosion a ddaeth o'r llysoedd sifil.

Ym Mhennod 14 y Papur Ymgynghori, ystyriwn sut y gallai canllawiau cadarn a hygyrch ar y materion pwysig sy'n codi wrth gyfrifo enillion fod o gymorth i'r llysoedd a rhanddeiliaid eraill.

Rydyn ni'n cydnabod na fydd bob tro'n briodol cynnwys canllawiau o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol. Felly cynigiwn yn amodol:

1. bod canllawiau anstatudol ar atafaelu'n cael eu cynhyrchu; neu
2. bod rhan o'r Gyfarwyddeb Ymarfer Troseddol ar atafaelu'n cael ei greu.

[22] Deddf Enillion Troseddau 2002, a. 10(6)(b).

Ystyriwn yn ofalus yr agweddau ar atafaelu a arweiniodd at apêl ac sy'n dueddol o ychwanegu at gymhlethdod achosion cyfreithiol.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 10**

Cynigiwn yn amodol y dylai canllawiau gynorthwyo rhanddeiliaid wrth ystyried materion yn ymwneud â:

1. asedau sydd wedi eu rhannol lygru gan droseddu;
2. enillion mewn achosion mewnforio tybaco; a

trosglwyddo asedau i ymddiriedolaethau a chwmnïau. A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

Yn *R v Ahmad*,[23] nododd y Goruchaf Lys nad yw'n digwydd bob tro, lle mae nifer o ddiffynyddion, bod pob diffynnydd wedi elwa'n ariannol o holl enillion y trosedd. Gallai pob diffynnydd fod wedi chwarae rhan wahanol iawn yn y troseddu, gan ddisgwyl derbyn gwahanol gyfran o'r enillion ariannol. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, clywsom fod trin pob diffynnydd ar sail eu bod yn atebol am holl enillion trosedd wedi dod yn safiad diofyn yn y llysoedd, heb feddwl o gwbl beth allai diffynnydd unigol fod wedi'i gael mewn gwirionedd.

Ystyriwn felly, yn unol â'r achos yn *R v Ahmad,* "y dylai barnwyr mewn achosion atafaelu fod yn barod i ymchwilio a dyfarnu ynghylch a gafwyd lefelau gwahanol o enillion".[24] Dylai gofyniad bod llys yn ystyried y budd ariannol a enillodd bob diffynnydd ar wahân fod yn fater i ddeddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na chanllawiau, a gwahoddwn farn yr ymgyngoreion ar y cynnig amodol hwn.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 11**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno, wrth asesu enillion nifer o wahanol ddiffynyddion, y dylai'r ddeddfwriaeth ar atafaelu ei gwneud yn ofynnol bod y llys yn dyfarnu ar ddosraniad yr enillion hynny?




---

[23] *R v Ahmad* [2014] UKSC 36, [2015] AC 299

[24] *R v Ahmad* [2014] UKSC 36, [2015] AC 299 yn [51].

## RHAN 5: Y SWM Y GELLIR EI ADENNILL

Cyn gwneud gorchymyn atafaelu, rhaid i'r llys benderfynu beth yw'r "swm y gellir ei adennill". Bydd y gorchymyn atafaelu'n gofyn bod y diffynnydd yn talu'r "swm y gellir ei adennill" yn ôl.

Ystyriwn y materion yn ymwneud â'r "swm y gellir ei adennill" yn Rhan 5 y Papur Ymgynghori.

### Y Swm y Gellir ei Adennill

Y man cychwyn yw bod y swm y gellir ei adennill yn cyfateb i'r enillion ddaeth i ddwylo diffynnydd. Gellir hepgor y man cychwyn os yw'r diffynnydd yn bodloni'r llys bod gwerth eu hasedau'n annigonol i dalu'r enillion yn ôl yn llwyr.

Mae baich y profi'n disgyn ar y diffynnydd i ddangos beth ddigwyddodd i'r enillion a gafodd oherwydd "mae diffynnydd ar adeg yr euogfarn yn debygol o fod yn gwybod faint o enillion sydd ar gael iddynt". [25]

Os yw'r llys yn fodlon bod asedau'r diffynnydd yn annigonol i dalu ffigwr yr enillion yn ôl, bydd y "swm y gellir ei adennill" yn cael ei leihau o gyfanswm yr enillion i naill ai:

1. y "swm sydd ar gael"; neu
2. "swm enwol" (£1 fel arfer) os yw'r swm sydd ar gael yn nil.

Drwy orchymyn talu swm is na ffigwr yr enillion troseddol, bydd diffynnydd ond yn cael eu gorchymyn i dalu'n ôl beth all fforddio ei dalu'n ôl. Fodd bynnag, oherwydd na fydd yr enillion troseddol wedi eu talu'n ôl yn llawn, gall yr erlyniad adolygu a chadw llygad ar fodd y diffynnydd, a lle bo'n briodol cyflwyno "chwydd-daliad" yn y dyfodol i adennill mwy o'r enillion. Pwrpas y darpariaethau hyn, gyda'i gilydd, fydd taro cydbwysedd cyfiawn wrth adennill enillion troseddol.

Ym Mhennod 15 y Papur Ymgynghori, nodwn y gall gwneud gorchymyn i dalu swm is na ffigwr yr enillion troseddol achosi dryswch, creu'r argraff fod y troseddwr yn "osgoi cosb" a thynnu sylw oddi ar graffu'n fanwl ar gyfrifo'r enillion (oherwydd mai'r "swm y gellir ei adennill" sy'n cael ei ystyried i fod yn bwysig). I geisio datrys y materion hyn, ystyriwn yn ofalus a yw'n briodol gwneud gorchymyn atafaelu am y "swm y gellir ei adennill" yn hytrach na swm yr enillion troseddol.

Eglurwn yn fanwl pam y credwn mai'r dull presennol yw'r un cywir. Fodd bynnag, cynigiwn yn amodol y dylai barnwyr egluro'r sefyllfa'n gliriach i rai sydd â budd yn y gwrandawiad atafaelu.



**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 12**

Cynigiwn yn amodol, lle gwneir gorchymyn atafaelu am swm llai na swm yr enillion troseddol, y dylai'r barnwr egluro:

1. pam fod y ddau swm yn wahanol; a
2. mai mater i'r erlyniad fydd ceisio adennill mwy o'r enillion yn y dyfodol, hyd nes y bydd wedi'i dalu'n ôl yn llawn.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

[25] *R v Dickens* [1990] 2 QB 102 yn [105] yn unol â'r Arglwydd Brif Ustus Lane.

## Asedau Cudd

Ni ddefnyddir y term “asedau cudd” yn POCA 2002, ond fe’i defnyddir gan farnwyr ac ymarferwyr i ddisgrifio unrhyw wahaniaeth diesboniad rhwng gwerth enillion troseddol y diffynnydd a gwerth hysbys asedau’r diffynnydd ar adeg yr atafaelu. “Lle mae anghysondeb rhwng yr asedau sydd wedi eu hadnabod, a’r enillion troseddol tybiedig, yr awgrym yw bod asedau anhysbys wedi eu cuddio.”[26]

Disgrifiwyd asedau cudd fel:

> un o’r “amryw byd o ddiffygion sy’n wynebu’r gyfundrefn atafaelu”.[27]

Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, dywedodd ymchwilwyr ariannol fod gorchmynion asedau cudd amhriodol yn cyfrannu at y ddyled atafaelu fawr sy’n ddyledus:

> Ym mis Mawrth 2019, roedd hanner biliwn o bunnau o’r ddyled atafaelu ddyledus (£493,830,000) yn cynnwys asedau a aseswyd i fod yn “asedau cudd heb unrhyw asedau eraill i gymryd camau gorfodaeth yn eu herbyn”.[28] Mae hyn gyfwerth â thua chwarter o’r swm sy’n dal i fod yn ddyledus.

Wrth natur, bydd lleoliad a ffurf yr asedau cudd hyn yn anhysbys i’r awdurdodau, gan wneud gorfodaeth yn anodd (os nad yn amhosib).[29]

Mae dyfarniad asedau cudd yn codi yn sgîl bod baich y profi’n disgyn ar y diffynnydd i ddangos beth ddigwyddodd i’w henillion troseddol. Lle mae baich y profi ar y diffynnydd, mae angen i’r diffynnydd gyflwyno cofnodion ariannol, fydd efallai heb gael eu cadw neu efallai heb fod mewn trefn. A hefyd, ar ddiwedd achos troseddol fydd efallai wedi bod yn hirfaith, a’r diffynnydd efallai eisoes heb gael eu credu ar lw, bydd yn ofynnol i’r diffynnydd roi mwy fyth o dystiolaeth i’r llys.

Rydyn ni wedi ystyried yn ofalus a ddylai baich y profi yng nghyswllt asedau cudd fod ar yr erlyniad yn hytrach na’r amddiffyniad. Ym Mhennod 16 y Papur Ymgynghori, eglurwn yn fanwl pam y daethom i’r casgliad amodol na ddylai. Yn hytrach, ystyriwn fod angen dull mwy cynnil o werthuso’r dystiolaeth a gyflwynir gan y diffynnydd, sy’n adlewyrchu’r gyfraith achosion ar asedau cudd.



[26] J Fisher a J Bong-Kwan “Confiscation: deprivatory and not punitive – back to the way we were” (2018) *Criminal Law Review* 3 192.

[27] A Campbell-Tiech, “Whither confiscation: May revisited” [2019] 5 *Archbold Review*, t. 4-5.

[28] Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Datganiad Ymddiriedaeth 2018-2019 (2018-2019) HC 2337, t.8.

[29] Yn ei sylwadau ysgrifenedig i Bwyllgor Tŷ’r Cyffredin ar Faterion Cartref yn 2016, roedd y Swyddfa Twyll Difrifol yn cydnabod ei bod yn anoddach gorfodi gorchmynion atafaelu nad oeddent yn seiliedig ar unrhyw asedau penodol.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 13**

Cynigiwn yn amodol fel a ganlyn:

1. Y dylai'r gyfraith ddarparu rhagofal gweddilliol fel bo'n ofynnol i'r llys wneud gorchymyn am swm llai na swm yr enillion troseddol lle, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos, mae'r diffynnydd yn dangos *neu lle bodlonir y llys fel arall* bod y swm sydd ar gael yn llai nag enillion troseddol y diffynnydd. O dan y cynnig amodol hwn, byddai'n ofynnol i'r llys wneud mwy na dim ond dadansoddi a yw'r diffynnydd wedi bodloni baich y profi - byddai angen i'r llys ystyried yr holl amgylchiadau a'r holl dystiolaeth (pa bynnag ochr a gyflwynodd y dystiolaeth).
2. Y dylai cyfarwyddyd ymarfer troseddol gynnwys rhestr anghyflawn o ffactorau i'r llys eu hystyried wrth benderfynu gwneud dyfarniad o asedau cudd neu beidio ac wrth asesu'r dystiolaeth (lle'r oedd tystiolaeth) gan y diffynnydd. Ystyriwn y byddai'r cynnig amodol hwn yn cynorthwyo'r llys i gyflawni ei dasg yn deg ac effeithiol.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

## Rhoddion Llygredig

Pan fydd diffynnydd yn gwneud rhodd o eiddo i rywun arall, ni all y diffynnydd fel rheol gymryd camau i adennill y rhodd os ydynt eisiau cymryd y rhodd yn ôl i'w meddiant. Fodd bynnag, o dan POCA 2002, pan fydd rhodd yn "llygredig", mae felly'n cael ei drin fel rhan o'r swm y bydd angen i'r diffynnydd ei dalu'n ôl o dan y gorchymyn atafaelu. O dan adran 77 o ddeddf POCA 2002, bydd penderfynu a yw rhodd yn llygredig yn dibynnu ar amseriad y rhodd.

Er y gellir, fel arfer, ond gofyn bod diffynnydd yn talu'n ôl beth sydd o fewn eu modd i dalu'n ôl, mae "rhodd lygredig" yn cael ei thrin fel ased y gellir ei adennill oherwydd:

1. Gallai rhodd dybiedig mewn gwirionedd fod yn ymgais i guddio gwir berchnogaeth yr ased, ac ni ddylai'r diffynnydd elwa o unrhyw ymgais i roi asedau y tu hwnt i gyrraedd y broses o gyfrifo'r swm sydd ar gael i'w dalu'n ôl drwy guddio gwir berchnogaeth yr ased.
2. P'un ai y gwnaed ymgais i guddio gwir berchnogaeth ased neu beidio, ni ddylid caniatáu i ddiffynnydd osgoi'r orfodaeth arnynt i dalu enillion troseddol yn ôl drwy wneud rhoddion asedau a fyddai'n lleihau'r "swm sydd ar gael" i'w dalu'n ôl oherwydd na fedrant adennill y rhodd.[30]

Mae cynnwys rhoddion llygredig yn y swm sydd i'w dalu'n ôl wedi'i feirniadu ar y sail bod gan hyn botensial i ychwanegu at y ddyled atafaelu sy'n ddyledus ac achosi anghyfiawnder i'r diffynnydd drwy eu carcharu am beidio â thalu.

[30] *R v Johnson* [2016] EWCA Crim 10, [2016] 4 WLR 57.

## Y Gyfundrefn Atafaelu Arfaethedig

Ie
Na

Ymchwiliad yn dechrau

Cais rhewi asedau (gall ddigwydd ar unrhyw adeg o hyn ymlaen)

***DALIER SYLW:*** *Gellir penderfynu budd trydydd parti mewn asedau ar unrhyw adeg yn ystod y broses o'r pwynt "rhewi asedau" ymlaen.*

*PTPH – mae'r llys yn cael ei hysbysu y bydd cais atafaelu efallai'n cael ei wneud ar ddiwedd y prif achos troseddol.*

Euogfarn a Dedfrydu

Mae'r atafaelu'n dechrau ar gais yr erlyniad neu ar ysgogiad y Llys.

Datganiad yr erlyniad

Ymateb yr amddiffyniad

Bydd gwrandawiad rheoli atafaelu'n cael ei gynnal i benderfynu ar y materion lle mae anghydfod yn eu cylch fel rhan o baratoi am y gwrandawiad atafaelu.

*Gwrandawiad Penderfynu Achos Atafaelu'n Gynnar (EROC)*

Gorfodaeth

**Gwrandawiad atafaelu**

**Cam 1: Pa ymddygiad troseddol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad atafaelu?**

A oes gan D ffordd o fyw droseddol?

**Troseddau ffordd o fyw droseddol**

(a) Trosedd Atodlen 2
(b) ***Lleiafswm enillion (£)***
(i) – Trosedd dros chwe mis o leiaf
(ii) – Y nifer leiaf o droseddau mewn un achos, neu'r un nifer o droseddau mewn nifer o wahanol achosion
(iii) – Y nifer leiaf o drosedd(au) sy'n cael eu "cymryd i ystyriaeth"
(iv) – Lle mae nifer o droseddau'n cael eu hystyried, dylid hefyd ystyried troseddau perthnasol lle'r oedd "ymgais" i droseddu

Cam 2: Penderfynu a yw'r diffynnydd wedi elwa'n ariannol o'u hymddygiad troseddol perthnasol

NA – a yw wedi elwa o unrhyw ymddygiad troseddol PENODOL?

IE – A yw D wedi elwa o ymddygiad troseddol CYFFREDINOL?

**Tybiaethau Ffordd o Fyw**
**(ar gais yr erlyniad / disgresiwn y barnwr)**

1. Unrhyw eiddo wedi'i drosglwyddo i D ar ôl y diwrnod perthnasol
2. Unrhyw eiddo ym meddiant D ar ôl dyddiad yr euogfarn = enillion o ymddygiad troseddol (GCC) y diffynnydd
3. Gwariant ar unrhyw adeg ar ôl y diwrnod perthnasol = a ddaeth o'r eiddo yn nwylo'r diffynnydd drwy eu hymddygiad troseddol
4. Dylid prisio'r eiddo fel pe bai'n rhydd o unrhyw fuddiannau eraill ynddo

***DALIER SYLW:***
*Wrth ystyried y cyfnod priodol o garchar am fethu â thalu, dylid ystyried a oes unrhyw "roddion llygredig"*

**Cam 3: Prisio Enillion**

Bydd gwerth enillion yn cael ei asesu ar sail eu gwerth marchnad. Gwerth eiddo ar adeg cynnal y gwrandawiad atafaelu fydd y swm mwyaf o:

a. ei werth pan ddaeth yr eiddo i ddwylo D, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant; neu
b. ar adeg y gwrandawiad atafaelu, gwerth naill ai
   i. yr eiddo a ddaeth i ddwylo'r diffynnydd; neu
   ii. Os nad yw'r eiddo'n rhannol neu'n llwyr yn nwylo D mwyach, gwerth yr eiddo wnaeth D ei gyfnewid amdano

**Cam 4: Penderfynu'r swm y gellir ei adennill**

Beth yw'r swm y gellir ei adennill?

1. Swm cyfwerth â swm enillion D
2. Y swm sydd ar gael os yw asedau D yn werth llai na swm yr enillion; neu
3. Swm enwol os yw gwerth asedau D yn nil

**Step 5: Proportionality**

Ar ôl penderfynu ar y swm y gellir ei adennill, rhaid i'r llys wneud gorchymyn atafaelu am y swm y gellir ei adennill "os, a dim ond i'r graddau, na fyddai'n anghymesur gwneud hynny." Byddai adennill lluosog yn anghymesur.

**Ystyriaethau Eraill sy'n Ofynnol**

1. Os na wneir gorchymyn atafaelu am swm yr enillion, dylid egluro pam a chadarnhau bod y swm enillion llawn yn ddyledus gan D
2. Yr amser a roddir i dalu?
3. Adnabod yr asedau a gymerir i feddiant os nad yw'r gorchymyn yn cael ei dalu, ac ystyried cymryd meddiant awtomatig, gorchmynion wrth gefn neu orchmynion cydymffurfio eraill
4. Beth fyddai'r cyfnod priodol o garchar am beidio â thalu
5. Ystyried unrhyw orchmynion eraill i'w talu (e.e. gorchmynion iawndal)

**Gorfodaeth**

1. Os na fydd gorchymyn yn cael ei dalu o fewn yr "amser a roddir i dalu", ystyried gweithredu'r gorchymyn wrth gefn i gymryd meddiant o asedau
2. Os yw'r gorchymyn yn parhau heb ei dalu – ystyried carcharu os methir â thalu
3. Os yw'r gorchymyn yn parhau heb ei dalu, rhoi'r pŵer i alw D yn ôl i'r carchar i dreulio gweddill y ddedfryd a / neu gyfarwyddo bod y gorchymyn yn cael ei atal dros dro

Ystyriwn fod y rhesymeg polisi cyhoeddus o blaid cynnwys rhoddion llygredig yn y swm sydd ar gael yn un gadarn. Fodd bynnag, rhaid taro cydbwysedd sy'n sicrhau tegwch pan ddaw'n fater o orfodi'r gorchymyn atafaelu. Mae'r llysoedd eisoes wedi ceisio taro'r cydbwysedd hwn wrth benderfynu a gweithredu dedfrydau diffygdalu os nad oes modd adennill rhoddion llygredig.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 14**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno, lle mae gwerth rhodd lygredig wedi'i gynnwys yn y gorchymyn atafaelu ar gyfer y diffynnydd, os yw'r llys yn fodlon na fyddai unrhyw gamau gorfodaeth yn effeithiol i adennill gwerth rhodd lygredig, y dylai fod gan y llys bŵer i:

1. addasu ar-i-lawr y cyfnod o garchar a roddir i'r diffynnydd am beidio â thalu'r gorchymyn atafaelu; a
2. atal unrhyw log rhag cronni ar werth y rhodd llygredig. Fel y byddwn yn ei drafod yn Rhan 6 y Papur Ymgynghori, mae'r llog a gronnir ar y gorchymyn atafaelu hefyd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn gorfodaeth?

Yn Rhan 6 y Papur Ymgynghori, cynigiwn hefyd system o atal dros dro unrhyw orchmynion atafaelu na ellir eu gorfodi. Credwn y gallai hyn fod yn briodol mewn achos lle na fyddai unrhyw gamau gorfodaeth yn effeithiol i adennill gwerth rhodd lygredig. Byddai nid yn unig yn cynorthwyo asiantaethau gorfodi'r gyfraith i dargedu adnoddau at orchmynion y gellir eu gorfodi, ond hefyd yn gwella cywirdeb y data.



## RHAN 6: GORFODI'R GORCHYMYN ATAFAELU

Yn Rhan 6 y Papur Ymgynghori, ystyriwn beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o orfodi gorchmynion atafaelu.

Ar ôl gwneud y gorchymyn atafaelu, rhaid i Lys y Goron ystyried materion perthnasol i orfodaeth y gorchymyn. Yn benodol:

1. faint o amser fydd ei angen ar y diffynnydd i dalu'r gorchymyn;
2. faint o garchar i'w roi os bydd y diffynnydd yn methu â thalu'r gorchymyn; a
3. a fyddai unrhyw orchymyn pellach (gorchymyn cydymffurfio) yn "briodol er mwyn sicrhau bod y gorchymyn atafaelu'n effeithiol".

Y camau y mae'n rhaid i Lys y Goron eu cymryd i adlewyrchu'r ffaith bod POCA 2002 yn rhoi'r cyfrifoldeb am dalu'r gorchymyn atafaelu ar y diffynnydd.

Bydd gorfodi'r gorchymyn atafaelu yna'n pasio i'r Llys Ynadon, fydd yn gallu defnyddio ei bwerau i orfodi dirwyon i geisio sicrhau bod y gorchymyn cael ei fodloni.

Yr argraff gyffredinol yw nad yw gorfodaeth yn llwyddiannus. Daw'r argraff yma'n bennaf o'r ffaith bod dros £2 biliwn yn ddyledus gan ddiffynyddion yng nghyswllt gorchmynion atafaelu heb eu talu. Ym Mhennod 19 y Papur Ymgynghori, edrychwn ar beth sy'n achosi'r ddyled atafaelu hon ac ar y problemau gyda'r gyfundrefn bresennol y tynnodd randdeiliaid ein sylw atynt, gan gynnwys yr argraff:

1. Bod rhoi'r cyfrifoldeb ar y diffynnydd i dalu gorchymyn atafaelu'n agored i gael ei gamddefnyddio gan ddiffynyddion nad ydynt eisiau cydweithredu; ac a allai roi baich trwm ar ddiffynyddion sy'n dymuno cydweithredu ond nad ydynt yn gallu (am ba bynnag reswm).
2. Er y gall Llys y Goron benodi derbynnydd i werthu asedau'r diffynnydd er mwyn talu'r gorchymyn atafaelu, pur anaml y gwneir penodiadau o'r fath.
3. Gallai defnyddio gorchmynion eraill fel gorchmynion arwystlo olygu achos costus ar draws amryw o wahanol awdurdodaethau.
4. Ni chafodd y gyfundrefn gorfodi dirwyon ei drafftio gyda gorchmynion atafaelu mewn golwg.

Ym Mhenodau 20-22 y Papur Ymgynghori, ystyriwn ddiwygiadau posib – mawr a bach – i ateb yr anawsterau i bob golwg gyda'r gyfundrefn orfodaeth bresennol.

### Cymryd camau gorfodaeth yn erbyn asedau penodol

Ystyriwn a ddylid disodli'r gyfundrefn atafaelu bresennol, lle mae'n ofynnol i'r diffynnydd dalu gwerth eu trosedd yn ôl, gyda chyfundrefn lle mae'n ofynnol i'r diffynnydd fforffedu asedau penodol a ddaeth o droseddu. Fodd bynnag, casglwn na fyddai'n briodol disodli'r system werth yn llwyr. Ni fyddai gan ddiffynnydd sydd eisoes wedi disbyddu ei enillion ef neu hi'n cael eu dal yn atebol, oherwydd ni fyddai ganddynt mwyach unrhyw asedau y gellid eu cysylltu i droseddu. Hefyd o dan nifer o gonfensiynau rhyngwladol, mae'n ofynnol i wledydd gymryd camau i sicrhau y gellir fforffedu gwerth enillion troseddu. Nodwn fod awdurdodaethau eraill, sy'n ymddangos i ganolbwyntio ar fforfedu asedau, yn y pen draw'n gwneud dyfarniadau atafaelu ar sail gwerth yn erbyn y diffynnydd.

Er nid yn eiriol dros symud i ffwrdd yn llwyr oddi wrth system atafaelu seiliedig ar werth tuag at system seiliedig ar asedau, ystyriwn y byddai mwy o ffocws ar asedau fel rhan o system seiliedig ar werth yn briodol.

Cynigiwn yn amodol felly, pan fydd gorchymyn atafaelu'n cael ei wneud, y dylai Llys y Goron ystyried a oes siawns realistig y bydd y diffynnydd yn talu eu gorchymyn atafaelu o fewn unrhyw amser a roddir gan y llys i dalu. Er enghraifft, gallai fod:

1. yng ngoleuni ymddygiad y diffynnydd, bod y llys yn dyfarnu bod seiliau rhesymol dros gredu y bydd y diffynnydd yn methu â thalu'r gorchymyn drwy wrthod talu'n fwriadol, neu fod yn esgeulus ar fai yn methu â thalu; neu
2. bod buddiannau trydydd parti, neu heriau disgwyliedig gan drydydd partïon, yn golygu ei bod yn fwy tebygol na pheidio na fydd cyfran y diffynnydd o ased ar gael i'w gwerthu.

Yn yr achosion hyn, cynigiwn yn amodol, wrth wneud gorchymyn atafaelu y dylai fod gan Lys y Goron bŵer i wneud gorchymyn bod yr asedau'n dod i feddiant derbynnydd neu "ymddiriedolwr dros atafaelu" a fyddai'n gallu gwerthu cyfran y diffynnydd o'r ased. Gallai gorchymyn o'r fath:

1. dod i rym yn syth, os yw'r llys yn ystyried nad oes unrhyw debygolrwydd rhesymol y byddai'r asedau'n cael eu gwerthu yn ystod yr amser a roddir i dalu; neu
2. cael ei wneud ar sail "wrth gefn" gan ddod i rym pe na byddai'r gorchymyn atafaelu'n cael ei dalu erbyn y dyddiad a fyddai'n cael ei osod gan y llys.

Ystyriwn fod y cynnig hwn yn rhoi disgresiwn i'r llys ar sail ffeithiau pob achos i daro cydbwysedd priodol rhwng rhoi cyfle rhesymol i ddiffynnydd dalu'r gorchymyn atafaelu lle bo'n briodol, a sicrhau bod gorfodaeth o'r gorchymyn yn effeithiol.

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath, byddai'n rhaid i'r llys wneud unrhyw ddyfarniadau angenrheidiol ynghylch buddiannau trydydd parti ac unrhyw galedi di-alw-amdano y byddai cymryd yr asedau i feddiant yn ei achosi.

## Gwneud gorchmynion gorfodaeth ar yr adeg y gwneir y gorchymyn atafaelu.

Ar ôl cynnig yn amodol y gellid gwneud gorchmynion i sicrhau y gellid cymryd meddiant o asedau'n amserol, ystyriwn hefyd a ellid defnyddio mathau eraill o orchmynion gorfodaeth a ddeuai i rym yn syth neu fel gorchmynion wrth gefn i sicrhau gorfodaeth fwy effeithiol. Yn benodol, ystyriwn a ellid gwella'r darpariaethau "gorchmynion cydymffurfio" yn POCA 2002 i wneud y broses o gymryd meddiant o asedau'n symlach a haws mewn achosion priodol.

Oherwydd mai Llys y Goron sy'n gwneud y gorchmynion a'r Llys Ynadon yn eu gorfodi, mae oedi gyda gwneud gorchymyn gorfodaeth yn anochel. Mae'r oedi a'r tor-parhad o ran tribiwnlys yn rhwystr i orfodaeth effeithiol. Cynigiwn yn amodol felly y dylai fod gan Lys y Goron, pan wneir y gorchymyn atafaelu, bŵer i wneud gorchmynion gorfodaeth wrth gefn sydd:

1. yn dod i rym dim ond lle mae'r diffynnydd yn methu â thalu gorchymyn atafaelu o fewn yr amser a roddir gan y llys; a
2. yn gwneud y diffynnydd yn destun unrhyw orchmynion y gall Llys yr Ynadon eu gwneud pan fydd diffygdalu o'r fath yn digwydd.

yn ogystal neu yn lle cyfarwyddo bod ymddiriedolwr dros atafaelu'n cymryd meddiant o asedau, gallai'r llys gyfarwyddo os nad yw'r gorchymyn yn cael ei dalu:

1. bod arian mewn cyfrif banc yn cael ei fforffedu;
2. bod eiddo y cymerwyd meddiant ohono'n cael ei werthu; neu
3. bod gwarant cymryd rheolaeth, yn rhoi pŵer i feilïaid gymryd meddiant o eiddo a'i werthu, yn dod i rym.

Yn hytrach na gorchmynion wrth gefn, gellid gwneud gorchmynion yn syth mewn achosion priodol. Er enghraifft, lle'r oedd diffynnydd wedi eu gorchymyn i dalu iawndal wrth gael eu dedfrydu ond heb wneud hynny erbyn diwedd y gwrandawiad atafaelu, gallai'r llys ystyried bod siawns wirioneddol na fyddai'r diffynnydd yn talu eu gorchymyn atafaelu. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai unrhyw bwrpas defnyddiol i orchymyn wrth gefn a fyddai'n dod i rym dim ond ar ddiwedd yr amser a roddir i dalu.

Byddai'r cynigion hyn yn rhoi pŵer i'r llys deilwrio'r camau gorfodaeth i ffeithiau'r achos, i sicrhau y gellir cymryd camau gorfodaeth effeithiol a rhagweithiol mewn achos o ddiffygdalu. Byddai'r gyfundrefn orfodaeth yn dod yn rhagweithiol yn hytrach na'n adweithiol.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 15**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno y dylai fod gan Lys y Goron ddisgresiwn i gyfarwyddo, ar ôl gwneud gorchymyn atafaelu, y gellir gwneud orchymyn gorfodaeth (i) yn syth, neu (ii) ar sail wrth gefn:

1. lle mae seiliau rhesymol dros gredu y bydd y diffynnydd yn methu â thalu'r gorchymyn drwy wrthod talu'n fwriadol, neu fod yn esgeulus ar fai yn methu â thalu; neu
2. yng ngoleuni unrhyw fuddiannau gan drydydd partïon, p'un ai wedi eu sefydlu drwy ddatganiad neu fel arall, lle mae seiliau rhesymol dros gredu, a heb orchymyn wrth gefn, ei bod yn fwy tebygol na pheidio na fydd cyfran y diffynnydd o'r ased ar gael i'w werthu erbyn i'r amser a roddir i dalu ddod i ben?



## Offerynnau gorfodaeth eraill

Ym Mhennod 22 y Papur Ymgynghori, ystyriwn yn ofalus offerynnau eraill a allai wella'r ochr orfodaeth.

Gorfodi gorchmynion atafaelu fel pe baent yn ddirwyon. O dan y gyfundrefn ddirwyon, mae diffynnydd sy'n treulio cyfnod o garchar am ddiffygdalu'n cael eu rhyddhau'n ddiamod hanner ffordd drwy'r cyfnod hwnnw. Ar ôl eu rhyddhau, nid oes raid i'r diffynnydd dalu'r ddirwy mwyach. Mae diffynnydd gyda gorchymyn atafaelu am lai na £10 miliwn hefyd yn cael eu rhyddhau'n ddiamod hanner ffordd drwy eu dedfryd o garchar.[31] Fodd bynnag, mae'r diffynnydd yn yr achos hwn dal yn gorfod talu'r gorchymyn atafaelu. Dim ond unwaith y gellir carcharu am ddiffygdalu a chlywsom dro ar ôl tro gan randdeiliaid, ar ôl i ddiffynnydd dreulio'r cyfnod o garchar am ddiffygdalu a chael eu rhyddhau'n ddiamod, bod gorfodi'r gorchymyn atafaelu yn y dyfodol yn anodd iawn.

Cynigiwn yn amodol, lle mae diffynnydd sy'n treulio cyfnod o garchar am beidio â thalu eu gorchymyn atafaelu, na ddylid mwyach eu rhyddhau'n ddiamod ond y dylent aros ar drwydded a'u rhyddhau ar amodau sy'n hwyluso gorfodi'r gorchymyn atafaelu, ac y gellir eu galw'n ôl i'r carchar dros gyfnod y drwydded os torrir yr amodau hyn.



### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 16

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno y dylai diffynyddion sy'n cael eu rhyddhau o gyfnod o garchar am beidio â thalu eu gorchymyn atafaelu gael eu rhyddhau ar drwydded ac ar amodau sy'n hwyluso gorfodi'r gorchymyn atafaelu?

Gwnawn gynigion amodol eraill i'r pwrpas o hwyluso gorfodi gorchmynion atafaelu'n effeithiol:

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 17

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno:

1. y dylai fod gan y llysoedd bŵer neilltuol i gyfarwyddo diffynnydd i ddarparu gwybodaeth a dogfennau'n ymwneud â'u hamgylchiadau ariannol ac y byddai methu â gwneud hynny'n dod â chosb ar ffurf gwahanol sancsiynau, gan gynnwys cosbau cymunedol a charchar? Byddai hyn yn disodli'r ffurflen sylfaenol a gyflwynir i'r Llys Ynadon ar hyn o bryd ar ddiwrnod y gwrandawiad gorfodaeth, yn rhoi trywydd archwilio clir o amgylchiadau ariannol y diffynnydd, ac yn rhoi cyfle i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ymchwilio i'r honiadau a wneir.
2. y dylid dodi gorchmynion atafaelu heb eu talu yn y Gofrestr Dyfarniadau, i roi'r un grym iddynt â dyfarniad dyled a wneir gan lys sifil?

[31] Deddf Troseddau Difrifol 2015, a. 10(3), yn mewnosod a. 258(2B) yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

## Llog

Roedd £748,882,000 mewn llog ar orchmynion atafaelu heb eu talu'n ddyledus hyd at Fawrth 2019.[32] Clywsom dro ar ôl tro gan randdeiliaid am achosion lle nad oedd rhandaliadau'r diffynnydd yn cwrdd â'r llog oedd yn cronni. Mae diffynnydd sy'n wynebu dyled gynyddol na all ei thalu'n annhebygol o fod ag unrhyw gymhelliad i dalu'r ddyled honno: yn hytrach nid yw'r taliadau a wneir tuag at y gorchymyn atafaelu'n ddim mwy na "diferyn yn y môr":[33]

Cafodd diffynnydd gyda gorchymyn atafaelu yn ei herbyn am £849,300 ei gorchymyn i dalu £20 y mis allan o'i budd-daliadau tuag at y gorchymyn atafaelu. Roedd llog o £150 y dydd yn cronni ac roedd y ddyled atafaelu ddyledus wedi cynyddu o £849,300 i £1,352,911.

Disgrifiodd y barnwr fod "y gorchymyn, er yn cronni mwy a mwy o log bob dydd.... ag ystyr haniaethol neu symbolaidd yn unig iddo".[34]

Nid yw'r gyfundrefn bresennol ychwaith yn rhoi disgresiwn i'r llys lle nad yw'r diffynnydd ar fai am fethu â gwerthu asedau. Er enghraifft, lle na allai diffynnydd werthu eiddo mewn marchnad eiddo lonydd yn ystod dirwasgiad, byddai llog er hynny'n cael ei godi ar y swm dyledus hyd yn oed lle'r oedd y llys yn fodlon bod y diffynnydd wedi cymryd pob cam rhesymol i werthu'r ased. Mae llog yn cronni felly'n offeryn gorfodaeth eithaf amherffaith.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 18**

Cynigiwn yn amodol lle mae'r llys gorfodi goruchwylio'n fodlon bod seiliau dros wneud hynny, y dylid caniatáu i'r llys atal dros dro neu leihau'r llog sy'n cronni er mwyn rhoi cymhelliad dros barhau i gydymffurfio â gorfodi'r gorchymyn atafaelu.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

## Y lleoliad priodol ar gyfer gorfodaeth

Ar hyn o bryd mae gorchmynion atafaelu'n cael eu gwneud yn Llys y Goron bob tro, ond yn cael eu gorfodi yn y Llys Ynadon. Mewn rhai achosion, byddai gallu cynnal gwrandawiadau gorfodaeth yn Llys y Goron yn ddefnyddiol. Bydd barnwr Llys y Goron sy'n gwneud gorchymyn atafaelu'n ymwybodol o'r ffeithiau'n ymwneud â'r troseddau cysylltiedig, ac o amgylchiadau ariannol y diffynnydd.

Mae gan Lysoedd Ynadon brofiad helaeth iawn o orfodi cosbau ariannol a gweithredu cyfnodau o garchar mewn achosion priodol o ddiffygdalu. Byddai'n amlwg yn ddymunol defnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd hyn a sicrhau nad yw'r baich o orfodi gorchmynion yn cael ei roi'n llwyr ar Lys y Goron, a allai wastraffu adnoddau ac amser prin y llys.

Ystyriwn na fyddai dull "un esgid i ffitio pawb", o ran lleoliad achosion gorfodaeth, yn briodol. Atgyfnerthir hyn gan y ffaith bod sylwadau'n aml yn cael eu gwneud yn y Llys Ynadon y bydd cais yn cael ei wneud i Lys y Goron, naill ai i benodi derbynnydd neu i amrywio'r swm sydd i'w dalu o dan y gorchymyn atafaelu. Os a phryd y gwneir ceisiadau o'r

[32] HMCTS - Datganiad Ymddiriedaeth 2018-2019, t. 8.

[33] *Re G* [2019] EWHC 1737 (Admin) yn [3].

[34] Re G [2019] EWHC 1737 (Admin) yn [3].

fath, mae'r cyfrifoldeb am orfodi'r gorchymyn atafaelu'n dal i orwedd gyda'r Llys Ynadon.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 19**

Cynigiwn yn amodol y dylai fod gan Lys y Goron a'r Llysoedd Ynadon bwerau hyblyg i drosglwyddo achosion gorfodaeth, ar sail ffeithiau pob achos, i'r pwrpas o orfodi gorchymyn atafaelu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

Cynigiwn hefyd, lle gallai gorfodaeth gael effaith ar neu gael ei effeithio gan achosion rhwymedi ariannol cyfraith deuluol, y dylai fod gan Lys y Goron ddisgresiwn i drosglwyddo'r mater i'r Uchel Lys. Pŵer disgresiwn fyddai hwn a gellid darparu canllawiau i gynorthwyo barnwyr ynghylch pryd y byddai'n briodol trosglwyddo achosion. Er enghraifft, lle byddai achos rhwymedi ariannol yn tynnu tua'i derfyn, gallai fod yn briodol gohirio'r achos gorfodaeth hyd nes penderfynu ar yr achos rhwymedi.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 20**

Cynigiwn yn amodol os oes achos rhwymedi ariannol ac achos gorfodaeth atafaelu'n cyd-redeg, y dylai fod gan Lys y Goron bŵer disgresiwn i drosglwyddo'r achosion i'r Uchel Lys fel bod un barnwr yn gallu penderfynu ar y ddau fater.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

## Atal gorchmynion atafaelu anorfodadwy dros dro

Mae'r ddyled gorchmynion atafaelu grynswth o £2 biliwn ar hyn o bryd yn cael ei sgiwio gan ddyled etifeddol sy'n cynyddu'n barhaus wrth i log gorfodol o 8% gael ei godi ar y ddyled. Mae HMCTS yn amcangyfrif mai dim ond £161 miliwn o'r swm dyledus y gellir ei adennill.[35]

Dywedodd staff gorfodaeth yn HMCTS wrthym, ar ôl i bopeth arall fethu, bod gwneud ymdrechion ofer parhaus i orfodi gorchymyn atafaelu'n wastraff o adnoddau prin. Ystyriwn y dylid targedu adnoddau lle mae tebygolrwydd gwirioneddol y gellir gorfodi gorchymyn yn llwyddiannus.

Cynigiwn yn amodol fod gan Lys y Goron bwerau i gyfarwyddo atal achos gorfodaeth dros dro hyd nes y bydd y llys yn gorchymyn ymhellach. Mae hyn yn debyg i'r drefn sy'n bodoli i ganiatáu i "brif gyhuddiadau troseddol "orwedd ar ffeil". Lle mae gorfodaeth yn cael ei atal dros dro, dylai fod gan y llys hawl i:

1. cyfarwyddo bod achos yn cael ei restru gerbron y llys am adolygiad; a
2. cyfarwyddo bod diffynnydd, ar brydiau penodol, yn diweddaru a chyflwyno gwybodaeth ategol am eu sefyllfa ariannol.

[35] HMCTS - Datganiad Ymddiriedaeth (2018-19) t. 8.

Lle mae asedau neu incwm newydd yn cael eu datgelu neu ddarganfod, neu lle cafodd y llys ei gamarwain, gellir dechrau achos gorfodaeth gyda chaniatâd y llys. Wrth benderfynu a ddylid ail-agor achos gorfodaeth, ystyriwn y dylid hysbysu'r llys ar sail y ffactorau dangosol a restrwn mewn cysylltiad â "chwydd-daliadau" gorchmynion atafaelu ym Mhennod 25 (Rhan 8, isod).

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 21**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno y dylai'r llys fod yn gallu cyfarwyddo bod achos gorfodaeth yn cael ei atal dros dro lle mae'n fodlon na ellir gorfodi gorchymyn?

# RHAN 7: GORCHMYNION ERAILL Y LLYS

Yn Rhan 7 y Papur Ymgynghori, trafodwn orchmynion eraill y llys mewn dau gyd-destun gwahanol. Yn gyntaf, lle mae diffynnydd yn destun mwy nag un gorchymyn atafaelu mewn achosion ar wahân. Yn ail, y rhyngberthynas rhwng gorchmynion iawndal a gorchmynion atafaelu.

Mae'r rhan yma o'r papur yn debygol o fod o ddiddordeb penodol i ymarferwyr ac aelodau o'r farnwriaeth.

## Gorchmynion atafaelu lluosog

Mae gan ddiffynnydd weithiau fwy nag un gorchymyn atafaelu yn eu herbyn. Lle mae gan ddiffynnydd "ffordd o fyw droseddol", mae'r llys yn cyfrifo'r enillion drwy ystyried "ymddygiad troseddol cyffredinol" y diffynnydd. Oherwydd bod "ymddygiad troseddol cyffredinol" yn cynnwys holl ymddygiad troseddol y diffynnydd pryd bynnag y digwyddodd, gallai enillion a ystyriwyd mewn gorchymyn atafaelu blaenorol gael ei ystyried hefyd mewn gorchymyn atafaelu diweddarach. Diben Adran 8 o POCA 2002 yw atal dwbl-gyfrif drwy ddarparu trefn ar gyfer cyfrif "cyfanswm treigl" dyledion atafaelu'r diffynnydd. Fodd bynnag:

1. gall ceisio gorchymyn atafaelu fod yn broses fwy amlweddog nag y mae Adran 8 yn ei gyfleu. Gall gwahanol awdurdodau erlyn fod eisiau gorchmynion atafaelu i ateb gwahanol ddibenion (er enghraifft, gofynnir weithiau am y gorchymyn i dalu iawndal i'r dioddefwr).
2. mae'r darpariaethau statudol yn gymhleth.

Ym Mhennod 23 y Papur Ymgynghori, cynigiwn ddiwygiadau i geisio datrys y materion hyn.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 22**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno gyda'r cynigion amodol a ganlyn:

1. lle gofynnir neu lle gwneir nifer o orchmynion atafaelu yn erbyn yr un diffynnydd, y dylai fod gan y llys bŵer i gyfuno'r ceisiadau atafaelu;
2. y dylai taliadau allan o arian a gasglwyd o dan orchymyn atafaelu cyfunol adlewyrchu'r flaenoriaeth ganlynol:
    a. iawndal i ddioddefwyr (lle mae'r iawndal wedi'i orchymyn i gael ei dalu allan o arian wedi'i atafaelu); yna i ddilyn
    b. pob gorchymyn atafaelu yn y drefn y'i cafwyd?

## Iawndal

Mae ein Cylch Gorchwyl wedi'i gyfyngu i orchmynion atafaelu o dan Ran 2 POCA 2002. Yn y Bennod hon felly, ystyriwn orchmynion iawndal dim ond lle mae'r gorchmynion hyn yn gysylltiedig â gorchmynion atafaelu.

Drwy gydol y Papur Ymgynghori gwnawn gynigion i'r pwrpas i roi blaenoriaeth i dalu iawndal i ddioddefwyr. Er enghraifft, cynigiwn yn amodol:

1. bod sicrhau bod iawndal yn cael ei dalu i ddioddefwyr troseddu yn cael ei gynnwys fel un o amcanion penodol y gyfundrefn atafaelu;
2. y gall llys wneud gorchmynion ategol, fel gorchymyn iawndal, fforffedu neu orchymyn tebyg, yn y cam dedfrydu'n hytrach na gorfod aros tan fydd y gorchymyn atafaelu wedi'i wneud;
3. y gall llys wneud gorchmynion gorfodaeth ar adeg y gwrandawiad atafaelu, gan

gynnwys gorchmynion cymryd meddiant, er mwyn prysuro talu iawndal lle mae iawndal o'r fath i'w dalu allan o arian wedi'i atafaelu.

Ym Mhennod 24 y Papur Ymgynghori, trafodwn sut, o dan y gyfraith bresennol, y gorfodir gorchmynion atafaelu a gorchmynion iawndal yn wahanol. Mae sut, ac a fydd gorchymyn iawndal yn cael ei dalu, yn gallu dibynnu a orchmynnwyd talu'r iawndal allan o arian wedi'i atafaelu, neu drwy orchymyn iawndal a wnaed ar wahân.

Ystyriwn lle gwneir gorchmynion atafaelu ac iawndal yn yr un achos llys, y dylid adennill yr holl iawndal sy'n ddyledus yn yr un modd er mwyn creu system symlach a mwy effeithlon a chywiro'r hyn y mae'r Llys Apêl wedi'i ganfod i fod yn ddiffyg yn y broses.[36] I gyflawni'r nod hwn, ystyriwn y dylai fod yn ofynnol i'r llys gyfarwyddo, lle gwneir gorchymyn iawndal ar yr un pryd â gorchymyn atafaelu, bod iawndal yn cael ei gasglu allan o arian wedi'i adennill o dan y gorchymyn atafaelu, beth bynnag yw modd ariannol y troseddwr.

Ym Mhennod 25 y Papur Ymgynghori, trafodwn y pwerau sydd gan Lys y Goron i amrywio'r swm y gall fod yn ofynnol i ddiffynnydd ei dalu o dan orchymyn atafaelu, gan ddibynnu ar eu modd ariannol. Fel y saif y fframwaith deddfwriaethol ar hyn o bryd, pan wneir amrywiad fel hyn i'r gorchymyn atafaelu, nid yw'r iawndal sydd i'w dalu allan o'r arian atafaelu'n cael ei amrywio yn yr un modd. Mae'n sefyllfa anfoddhaol y gellir cynyddu gorchymyn atafaelu (sy'n cael ei dalu i'r wladwriaeth), ond na ellir cynyddu iawndal (sy'n cael ei dalu i'r dioddefwr).

Cynigiwn yn amodol, wrth wneud gorchmynion i amrywio'r swm sy'n ofynnol i'r diffynnydd ei dalu o dan orchymyn atafaelu, y dylai fod gan Lys y Goron bŵer i addasu elfen iawndal y gorchymyn hefyd.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 23**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno gyda'r cynigion amodol a ganlyn:

1. lle gwneir gorchymyn iawndal ar yr un pryd â gorchymyn atafaelu, dylai fod yn ofynnol i Lys y Goron gyfarwyddo bod iawndal yn cael ei dalu o arian wedi'i adennill o dan orchymyn atafaelu, beth bynnag fyddai modd ariannol y diffynnydd; a
2. wrth wneud gorchmynion i amrywio'r swm sy'n ofynnol i'r diffynnydd ei dalu o dan orchymyn atafaelu, y dylai fod gan Lys y Goron bŵer i addasu elfen iawndal y gorchymyn hefyd?



[36] *R v Jawad* [2013] EWCA Crim 644, [2013] 1 WLR 3861, yn [13] a hefyd *R v Davenport* [2015] EWCA Crim 1731, [2016] 1 WLR 1400, yn [70].

## RHAN 8: AILYSTYRIED

Mae'r gyfraith yn caniatáu gallu ailystyried gorchmynion atafaelu mewn nifer o sefyllfaoedd.

Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, roedd y pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn ymwneud yn llwyr â cheisiadau i gynyddu'r swm ar gael gan y diffynnydd, sy'n aml yn cael eu galw'n geisiadau "chwydd-daliad". Hyn felly yw ffocws ein sylw ym Mhennod 25.

Gellir gwneud cais am "chwydd-daliad" ar unrhyw adeg ar ôl gwneud y gorchymyn atafaelu gwreiddiol. Os yw Llys y Goron yn fodlon bod y swm ar gael i'r diffynnydd er mwyn gallu talu eu henillion troseddol yn ôl allan ohonynt yn uwch nag ydoedd pan wnaed y gorchymyn atafaelu, gall y llys gynyddu'r swm sydd i'w dalu'n ôl o swm sydd, ym marn y llys, yn "gyfiawn". Mae disgresiwn y llys ar hyn yn eang.

Wrth ymarfer ei ddisgresiwn, gallai buddiannau anghytûn godi. Ar yr un llaw, os yw'r llys yn gorchymyn "chwydd-daliad", bydd y diffynnydd yn cael eu dal i gyfrif yn well am eu henillion troseddol. Mae hefyd yn anfon y neges nad yw diffynnydd yn gallu cuddio asedau tan ar ôl y gwrandawiad atafaelu ac yna'n cael eu cadw. Ar y llaw arall, gallai cais am "chwydd-daliad" a wneir flynyddoedd ar ôl gwneud y gorchymyn atafaelu, yng nghyswllt asedau a enillwyd drwy gyflogaeth gwbl gyfreithlon, gael effaith negyddol ar ailsefydlu'r diffynnydd. Rydyn ni wedi ystyried yn ofalus sut i daro'r cydbwysedd iawn ar hyn.

Ni chynigiwn yn amodol y dylid cyfyngu ceisiadau am chwydd-daliadau ar sail meini prawf penodol fel a ganlyn:

1. cyfnodau a nodir yn Neddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974, a fyddai'n amrywio'r terfyn amser yn ôl y ddedfryd a roddwyd;
2. unrhyw derfyn amser a roddwyd, pa bynnag ddedfryd a roddwyd;
3. a gafwyd yr asedau ar ôl gwneud y gorchymyn atafaelu; neu
4. a allai'r erlyniad fod wedi darganfod bod asedau'n bodoli a gwneud cais am chwydd-daliad drwy ymarfer diwydrwydd rhesymol.

Er hynny byddem yn croesawu barn yr ymgyngoreion ynghylch a ddylid cael cyfyngiadau statudol ar wneud cais am chwydd-daliad yng nghyswllt gorchymyn atafaelu, ac os felly, pa gyfyngiadau y dylai'r rheini fod.

Yn hytrach cynigiwn yn amodol, i gynorthwyo'r llys i benderfynu ar chwydd-daliad "cyfiawn" yng nghyswllt gorchymyn atafaelu, y dylai fod yn ofynnol i'r llys bwyso a mesur ffactorau wedi eu rhestru mewn darpariaeth statudol.

Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, codwyd y mater o ymarferoldeb. Yn ôl erlynwyr, roedd nifer o ddiffynyddion wedi bod eisiau trefniant lle'r oeddent yn talu eu gorchymyn atafaelu'n ôl mewn rhandaliadau, er enghraifft allan o gyflog yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes trefniant i wneud hyn. Gallai talu mewn rhandaliadau feddalu unrhyw effaith ar ailsefydlu, neu galedi. Gallai felly gynnig cyfaddawd "cyfiawn" rhwng gwneud dim gorchymyn am chwydd-daliad, a gorchymyn chwydd-daliad am y swm llawn, i'w dalu mewn amser byr. Ystyriwn felly y dylai unrhyw amser a roddir i dalu swm chwydd-daliad fod naill ai erbyn terfyn amser penodol, neu drwy dalu mewn rhandaliadau.

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 24

A yw'r ymgyngoreion yn ystyried y dylai fod cyfyngiadau statudol ar wneud cais am "chwydd-daliad" i orchymyn atafaelu?

Os felly, beth ddylai'r cyfyngiadau hyn fod?

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 25

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno y dylai'r llys ystyried ffactorau dangosol wrth benderfynu a yw cais am chwydd-daliad yn "gyfiawn" – ffactorau fel:

1. a yw swm y chwydd-daliad yn cydymffurfio ag amcanion y ddeddfwriaeth;
2. unrhyw galedi gormodol a fyddai'n cael ei achosi drwy ganiatáu'r chwydd-daliad, o ystyried y defnydd a wneir fel arfer neu y bwriedir ei wneud o'r eiddo, a beth yw natur a maint budd y diffynnydd yn yr eiddo; a
3. diwydrwydd yr erlyniad yn gwneud cais am chwydd-daliad?

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 26

Mae ein cynigion amodol yng nghyswllt ailystyried gorchmynion atafaelu'n canolbwyntio'n llwyr ar ailystyried y swm sydd ar gael. Gwahoddwn ymgyngoreion i gyflwyno barn am broblemau gydag unrhyw un o'r darpariaethau ailystyried eraill yn Rhan 2 o POCA 2002.

## RHAN 9: DIOGELU GWERTH ASEDAU

Rhaid i'r llysoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith gymryd camau i liniaru'r risg y gallai eiddo gael ei roi allan o gyrraedd asiantaethau gorfodi'r gyfraith, neu gael ei golli, difrodi, dinistrio neu ei leihau mewn gwerth mewn unrhyw ffordd arall, gan felly rwystro cyflawni gorchymyn atafaelu pe bai un yn cael ei wneud. Yn y rhan yma o'r Papur Ymgynghori, ystyriwn y camau y gellir eu cymryd i'r perwyl hwn a'r materion a gododd yng nghyswllt y camau hyn.

### Gorchmynion rhewi asedau

Mae gorchymyn rhewi asedau'n gallu diogelu asedau ar unrhyw adeg ar ôl i ymchwiliad troseddol ddechrau. Gallai cryn amser fynd heibio rhwng dechrau ymchwiliad a'r dyddiad y gwneir y gorchymyn atafaelu, pryd y gallai asedau gael eu gwasgaru. Mae gorchymyn rhewi asedau felly'n offeryn gwerthfawr fel mesur diogelu. Heb y cyfle i rewi asedau, byddai'r potensial i ddiogelu gwerth er mwyn talu gorchymyn atafaelu a thalu iawndal i ddioddefwyr yn llawer iawn llai. Mae rhoi cyfle i'r diffynnydd wario eu henillion troseddol hefyd yn debygol o danseilio unrhyw effaith ataliol bosib y gallai gorchymyn atafaelu ei gael.

#### Y risg o wasgaru asedau

Cyn gallu gwneud gorchymyn rhewi asedau, rhaid bodloni'r llys bod risg wirioneddol, heb orchymyn rhewi asedau yn ei le, y byddai asedau'r diffynnydd yn cael eu gwasgaru.

Y prawf risg gwasgaru oedd prif ffocws y pryderon gan randdeiliaid. Yn ôl rhai erlynwyr mae'r prawf yn ei gwneud yn anodd cael y llys i wneud gorchymyn rhewi asedau. Yn adroddiad 2018 y Tasglu Gweithredu Ariannol:

> Yn y 57% o achosion lle gofynnir am rewi asedau yn y cam ôl-gyhuddo, os nad yw'r diffynnydd wedi ceisio symud neu guddio'r asedau, gall fod yn anoddach dangos risg o wasgaru er mwyn cwrdd â'r trothwy ar gyfer rhewi asedau. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r CPS fel arfer aros hyd nes y mae rhai asedau'n cael eu gwasgaru cyn gallu gofyn am rewi asedau.[37]



[37] Y Tasglu Gweithredu Ariannol, *Anti-money laundering and counter-terrorist financing measures*, United *Kingdom mutual evaluation report* (Rhagfyr 2018) para 191.

Ystyriwn fod y prawf yn fesur pwyll pwysig i sicrhau bod gorchmynion rhewi asedau ond yn cael eu gwneud mewn achosion lle maen nhw'n angenrheidiol ac yn briodol, ac y dylid ei gadw. Fodd bynnag, gallai rhanddeiliaid ar draws y system cyfiawnder troseddol elwa o fwy o ganllawiau ynghylch beth a allai awgrymu risg o wasgaru asedau. Byddai hyn:

1. yn golygu na fyddai angen aros i asedau gael eu gwasgaru.
2. yn annog defnydd mwy (a chyfrifol) o bwerau rhewi asedau. Oherwydd y byddai gan erlynwyr a'r llysoedd restr glir o ffactorau dangosol i'w hystyried, byddai'n bosib sefydlu'n haws pa mor rhesymol fyddai'r dadleuon ynghylch risg o wasgaru, gan arwain at risg is o orchymyn costau anffafriol.
3. Yn cynorthwyo'r llys yn ei ddyletswydd i ystyried y cais i rewi asedau'n ofalus cyn ymyrryd â mwynhad heddychlon o'r eiddo.
4. Yn cynorthwyo'r partïon i ystyried a yw'r erlyniad wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i ddatgelu materion perthnasol i'r risg o wasgaru yn gwbl onest a llawn.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 27**

Cynigiwn yn amodol y dylai'r llys ystyried y ffactorau canlynol, ymhlith unrhyw ffactor arall y mae'n ystyried i fod yn berthnasol, wrth benderfynu'r risg o wasgaru:

1. Beth a wnaeth y person y bwriedir rhewi eu hasedau, gan gynnwys:
   a. unrhyw wasgaru sydd eisoes wedi digwydd;
   b. unrhyw gamau i baratoi ar gyfer gwasgaru'r asedau a gymerwyd eisoes;
   c. unrhyw gydweithrediad o ran gweithredu'r achos yn gyfiawn.
2. Natur yr ymddygiad troseddol a honnir; gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) a honnir bod y diffynnydd wedi cyflawni trosedd:
   a. yn ymwneud ag anonestrwydd;
   b. sy'n dod o dan Atodlen 2.
3. Gwerth yr enillion honedig o'r ymddygiad troseddol.
4. Ym mha gam y mae'r achos.
5. A allai'r person drosglwyddo'r asedau dramor.
6. A allai'r person ddefnyddio trefniadau ymddiriedolaeth a strwythurau corfforaethol i bellhau eu hunain o'r asedau.
7. Cymeriad da neu ddrwg blaenorol y person.
8. Ffynonellau ariannol eraill sydd ar gael i'r person.
9. A ellid cael mechnïwr neu sicrhad.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

## Ceisiadau dirybudd

Mae'n bwysig bod gorchmynion rhewi asedau'n cael eu gwneud heb oedi diangen i sicrhau bod asedau'n cael eu diogelu fel bod unrhyw orchymyn atafaelu'n cael ei dalu. Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, clywsom ei bod yn anodd cyflwyno ceisiadau brys gerbron llysoedd prysur nad oes ganddynt efallai amser i ystyried y cais yn syth, neu os oes ganddynt amser, nad oes ganddynt ddigon o amser i'w roi i'r cais i'w graffu'n iawn. I geisio datrys y mater hwn, ystyriwn fod angen barnwr "dyletswydd" a fyddai ar gael yn genedlaethol "o bell", ac na fyddent dan y pwysau amser sydd fel arfer yn wynebu llys troseddol, i ddelio â'r holl geisiadau.

### Cwestiwn Ymgynghori Cryno 28

Cynigiwn yn amodol fod ceisiadau am orchmynion rhewi asedau di-rybudd yn cael eu gwneud i farnwr dyletswydd, a fyddai ar gael yn genedlaethol, a allai:

1. Penderfynu'r cais ar sail y papurau;
2. Cynnal gwrandawiad rhithiol "di-rybudd" er mwyn casglu mwy o wybodaeth; neu
3. Cyfeirio'r mater i ganolfan lys sy'n lleol i'r partïon lle cred y barnwr fod angen gwrandawiad 'inter-partes'.

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno?

## Caniatáu i gostau cyfreithiol gael eu tynnu allan o arian wedi'i rewi

O dan y gyfraith bresennol, ni all diffynnydd neu rywun sy'n derbyn rhodd lygredig ddefnyddio arian wedi'i rewi i herio unrhyw fater yn ymwneud â throsedd(au) y mae ef neu hi wedi eu hamau o fod wedi eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys arian i herio unrhyw achos yn gysylltiedig ag atafaelu. Mae'r cyfyngu ar ddefnyddio arian wedi'i rewi'n ymgais i leihau beth y cyfeiriodd Uned Perfformiad ac Arloesi (PIU) Swyddfa'r Cabinet ato fel "gwasgaru asedau wedi eu rhewi'n ddi-hid ar ffioedd cyfreithiol".[38]

[38] Uned Perfformiad ac Arloesi Swyddfa'r Cabinet, *Recovering the Proceeds of Crime* (Mehefin 2000) t. 72.

Yn ystod ein hymarfer cwmpasu, disgrifiad yr eithriad costau cyfreithiol yn anfoddhaol mewn dwy wahanol ffordd:

1. Mae gorchmynion rhewi asedau'n cyfyngu ar asedau a gafwyd yn gyfreithlon ac yn anghyfreithiol, ar gyfer atafaelu. Felly gellir gwahardd diffynnydd rhag defnyddio arian a enillwyd yn gyfreithiol, ond sydd wedi'i rewi, i dalu am eu hamddiffyniad. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa mewn achosion adennill sifil o flaen yr Uchel Lys. Mae achosion adennill sifil yn cael eu dwyn gyda golwg ar fforffedu asedau yr honnir iddynt fod wedi cael eu hennill drwy droseddu.[39] Felly mae unrhyw orchymyn rhewi eiddo a wneir mewn cysylltiad ag achos adennill sifil felly'n rhewi'r eiddo yr honnir iddo fod wedi cael ei ennill drwy ddulliau anghyfreithlon.[40] Er hynny, caniateir i ddiffynnydd ddefnyddio'r arian hwn ar gyfer eu hamddiffyniad.[41]
2. Caniateir i drydydd partïon ar wahân i rai sy'n derbyn rhoddion llygredig, ac sy'n gallu dangos bod ganddynt fudd yn yr arian wedi'i rewi, ddefnyddio'r arian hwnnw. Felly, clywsom fod anghysondeb rhwng y sefyllfa sy'n berthnasol i ddiffynyddion ac i eraill.

Oherwydd na all diffynnydd gael gafael ar eu harian cyfreithlon i dalu costau cyfreithiol, mae'r diffynnydd wedi eu cyfyngu yn eu dewis o ymarferydd, yn yr achos troseddol ac yn yr achos atafaelu, i ddewis ymarferydd sy'n fodlon cael eu talu drwy gymorth cyfreithiol. Mae'r gwahanol gyfundrefnau ariannu mewn achosion adennill sifil a rhewi troseddol yn creu anghysondeb o ran y dewis o gynrychiolaeth gyfreithiol sydd ar gael i'r diffynnydd. Gall dewis diffynnydd o gynrychiolaeth gyfreithiol ddibynnu ar benderfyniad yr asiantaeth erlyn, sef a fydd fforffedu'r asedau'n cael ei wneud drwy achos sifil yn yr Uchel Lys, neu drwy achos fforffedu asedau troseddol (atafaelu) yn Llys y Goron. Mae'r gwaharddiad llwyr ar ryddhau ffioedd cyfreithiol yng nghyswllt atafaelu hefyd yn rhoi baich ar y wladwriaeth i ariannu achosion drwy gymorth cyfreithiol ar ran diffynyddion, pa faint bynnag o gyfoeth y mae'n ymddangos sydd ganddynt.

I geisio datrys y materion hyn, ystyriwn fod angen diwygio'r dull amherffaith a ddefnyddir o dan POCA 2002, ac y dylid caniatáu i ddiffynyddion ddefnyddio arian cyfreithlon i dalu eu costau cyfreithiol. Fel gydag achosion adennill sifil, ystyriwn fod angen i gostau gael eu hasesu. Dylent gael eu cymeradwyo gan y farnwriaeth a'u cyfrifo ar sail offeryn statudol yn cynnwys tabl ffioedd. Ystyriwn fod hyn yn taro cydbwysedd i sicrhau bod unrhyw ffioedd a ryddheir yn rhai rhesymol.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 29**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno y dylai costau cyfreithiol yng nghyswllt achos troseddol ac atafaelu gael eu talu allan o arian wedi'i rewi, yn amodol ar:

1. Bod cyllideb gostau'n cael ei chymeradwyo gan y barnwr yn yr achos.
2. Telerau ar ffurf tabl ffioedd, wedi eu gosod allan mewn offeryn statudol?

### Costau mewn achosion rhewi.

Y rheol gyffredinol mewn achosion rhewi asedau yw'r rheol costau sifil bod y parti aflwyddiannus yn cael eu gorchymyn i dalu costau'r parti llwyddiannus. Felly, ym mhob achos lle mae gorchymyn rhewi asedau'n cael ei wneud, mae'r rheol gyffredinol yn golygu bod risg wirioneddol y bydd costau'n

[39] Deddf Enillion Troseddau 2002, a. 243(1) a 304(1).

[40] Deddf Enillion Troseddau 2002, a. 245A(5).

[41] Deddf Enillion Troseddau 2002 a. 245C(5).

cael eu dyfarnu yn erbyn awdurdod erlyn, er bod gorchymyn rhewi efallai wedi'i wneud yn rhesymol a phriodol. Cyfeiriwyd at y risg bod gorchymyn costau sylweddol yn cael ei wneud fel cymhelliad i beidio â gwneud cais am orchymyn rhewi asedau. Mae gan hyn botensial i danseilio effeithiolrwydd y gyfundrefn rhewi asedau.

I geisio datrys y mater hwn, ym Mhennod 26 cynigiwn yn amodol y dylai fod yn ofynnol i'r llys ystyried a yw'r cais i rewi asedau'n un rhesymol, ac os felly, y dylid cyfyngu'r costau yn erbyn yr erlyniad i rai cymorth cyfreithiol. Byddai hyn yn cysoni'r sefyllfa gostau mewn achosion rhewi asedau â'r costau mewn achosion troseddol yn gyffredinol, a chostau yn y prif achosion atafaelu, sy'n cael eu trin fel rhan o'r achosion troseddol.[42]

Nodwn fod cyfyngu neu gapio costau'n cael ei ddefnyddio mewn rhai achosion sifil[43] a bod ein cynnig yn fwy ffafriol i'r diffynnydd na'r hyn sy'n digwydd mewn achosion fforffedu asedau gerbron y Llys Ynadon, lle nad oes costau o gwbl yn cael eu dyfarnu yn erbyn asiantaeth orfodaeth aflwyddiannus cyn belled ag y bo'r cais wedi'i wneud yn "onest, rhesymol, priodol ac ar seiliau cadarn".[44]

Ystyriwn fod ein cynnig yn taro cydbwysedd rhwng annog rhewi asedau (sy'n offeryn hanfodol i sicrhau bod asedau ar gael i orfodi gorchymyn atafaelu yn eu herbyn)[45] a diogelu hawliau'r diffynnydd, gyda chostau'n cael eu diogelu dim ond lle mae'r asiantaeth erlyn wedi gweithredu'n rhesymol.

**Cwestiwn Ymgynghori Cryno 30**

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno, os yw llys yn penderfynu bod cais i rewi asedau wedi'i wneud yn rhesymol, y dylid capio costau ar sail rhai cymorth cyfreithiol?

Os na, sut (os o gwbl) y dylid cyfyngu neu gapio costau lle mae cais i rewi asedau wedi'i wneud yn rhesymol?

## Rheoli Asedau'n Effeithiol

Ym Mhennod 27 ystyriwn faterion yn ymwneud â'r camau y gellir eu cymryd i atal lleihau gwerth asedau, p'un ai'n destun gorchymyn rhewi neu beidio, a elwir weithiau'n gamau "rheoli asedau". Ystyriwn a yw dulliau heblaw rhewi asedau, a ddefnyddir i reoli neu ddiogelu gwerth asedau, yn effeithiol.

### Chwilio a chymryd meddiant o asedau i atal risg o wasgaru.

Er bod pwerau i chwilio am a chymryd meddiant o asedau lle mae risg o'u gwasgaru, yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori cawsom wybod na wyddai plismyn am y pwerau hyn yn aml. Cynigiwn yn amodol fod Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu'n ailystyried anghenion hyfforddi holl blismyn y wlad yng nghyswllt POCA 2002, ac yn enwedig plismyn yn y rheng flaen sydd efallai angen ymarfer y pwerau i chwilio a chymryd meddiant o eiddo yng nghyswllt atafaelu.

[42] Criminal Practice Direction X: Costs, Part 7.1.1.

[43] Civil Procedure Rules r 27.14(2)(g), r 45.39(7).

[44] *(R (Perinpanathan) v City of Westminster Magistrates' Court,* [2010] EWCA Civ 40, [2010] 1 WLR 1508 yn [33].

[45] Gan felly sicrhau bod enillion troseddol yn cael eu hadfeddiannu a, lle bo hynny'n briodol, eu talu i ddioddefwyr.

Cynigiwn yn amodol hefyd fod unrhyw ganllawiau anstatudol a gynhyrchir ar y gyfundrefn atafaelu'n cyfeirio'n benodol at y pwerau chwilio a chymryd meddiant yng nghyswllt atafaelu, ac yn cyfeirio rhanddeiliaid at y cod ymarfer statudol ar hyn a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Pan fydd ased yn destun gorchymyn rhewi, gellir penodi derbynnydd rheoli i ddiogelu gwerth yr ased. Fodd bynnag, byddai modd cymryd meddiant o ased oherwydd y risg o wasgaru, a chadw'r ased o dan orchymyn Llys Ynadon. Ni fyddai'n bosib i bwerau derbynnydd rheoli gael eu hymarfer yng nghyswllt asedau o'r fath. I sicrhau y gellid rheoli asedau o'r fath mewn ffordd gymharol, cynigiwn yn amodol y dylai fod gan Lys y Goron bŵer i benodi derbynnydd rheoli lle mae asedau wedi eu cadw gan Lys Ynadon ar ôl cymryd meddiant ohonynt oherwydd risg y gallent gael eu gwasgaru.



## Datblygu strategaeth rheoli asedau genedlaethol

Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, cawsom wybod fod gan asiantaethau erlyn a heddluoedd eu polisïau eu hunain ynghylch:

1. a ddefnyddir asiant allanol i orfodi gorchymyn atafaelu, neu i reoli asedau hyd nes y bydd gorchymyn atafaelu wedi'i wneud (p'un ai'n dderbynnydd neu'n gwmni arwerthiant);
2. pwy yw'r asiant allanol hwnnw;
3. y prisiau a godir gan yr asiant hwnnw; a
4. y dull gorfodaeth a ddefnyddir gan yr asiant hwnnw (er enghraifft, a oes angen derbyn isafswm pris am ased).

Byddai cael un sefydliad canolog yn cryfhau'r posibilrwydd o gael un strategaeth orfodaeth unffurf. Gallai sefydliad o'r fath ddatblygu polisïau cenedlaethol ar orfodaeth a gwerthu asedau. Byddai hyn yn gwneud i ffwrdd â'r hyn sy'n cael ei ganfod i fod yn amrywiadau mympwyol ac yn caniatáu dull "arbedion maint" o gaffael. Gallai sefydliad o'r fath werthuso sut ac o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud y defnydd gorau o'r sector cyhoeddus a phreifat lle bo angen a lle bo hynny'n briodol.

Cynigiwn felly fod Bwrdd Adennill Asedau Troseddol yn cael ei sefydlu i ddatblygu strategaeth rheoli asedau genedlaethol. Ystyriwn y dylai gynnwys cynrychiolwyr o'r prif asiantaethau sy'n ymwneud ag atafaelu, ynghyd â chynrychiolwyr o asiantaethau gorfodi'r gyfraith a HMCTS. Yn ystod ein trafodaethau cyn-ymgynghori, clywsom fod y sector preifat yn cynnig arbenigeddau penodol (p'un ai'n gwmnïau derbynnydd, arbenigwyr ansolfedd neu'n gwmnïau arwerthiant) a allai gynnig meddylfryd a dull gwahanol ar gyfer adnabod ac adennill asedau. Gallai defnyddio mewnbwn y sector preifat gynorthwyo i ddatblygu strategaethau ar gyfer adnabod, rheoli a gwerthu asedau.

## Cwestiwn Ymgynghori Cryno 31

A yw'r ymgyngoreion yn cytuno:

1. y dylid sefydlu strategaeth rheoli asedau genedlaethol, i benderfynu gan bwy a sut y dylid rheoli asedau; a
2. y dylai Bwrdd Adennill Asedau Troseddol, yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sectorau preifat a chyhoeddus, sefydlu'r strategaeth honno?

## Crypto-asedau

Ym Mhennod 29 ystyriwn a oes angen diwygiadau penodol i'r gyfundrefn atafaelu yng nghyswllt crypto-asedau, o ystyried bod yr asedau hyn ond wedi ymddangos fel math o eiddo ers i POCA 2002 gael ei deddfu.

Nod cyffredinol y bennod yw tynnu sylw at ystyriaethau perthnasol sy'n codi yng nghyswllt POCA 2002 a allai oleuo unrhyw adolygiad ehangach o grypto-asedau a'r system cyfiawnder troseddol (sydd y tu allan i gwmpas y Papur Ymgynghori hwn). Yn benodol, ystyriwn effaith crypto-asedau ar sut y mae enillion troseddol yn cael eu cyfrifo, a'r effaith ar rewi a chymryd meddiant o asedau. Ystyriwn hefyd oblygiadau amlwladol y gofod rhithiol.

Ystyriwn y mater o degwch i'r erlyniad a'r diffynnydd o gofio pa mor aml a sylweddol y mae'r mathau hyn o asedau'n amrywio o ran eu gwerth. Os trosir asedau o'r fath yn bunnoedd sterling i ddiogelu eu gwerth, gallent golli gwerth o ganlyniad. Gallai hyn wneud yr erlyniad yn agored i risg ariannol anffafriol a chosbi ymgais ddiffuant i ddiogelu asedau.

Nid ydym am wneud cynnig amodol i indemnio'r erlyniad ar ôl trosi crypto-asedau'n bunnoedd sterling; gwell gennym gymhwyso'r prawf cyffredinol o weithredu'n rhesymol fel y trafodwn ym Mhennod 26. Er hynny, gwahoddwn ymgyngoreion i ddweud a ydynt yn ystyried bod indemniad o'r fath yn briodol.

## Cwestiwn Ymgynghori Cryno 32

A yw'r ymgyngoreion yn ystyried bod angen gwarchod erlynwyr rhag gorfod digolledu diffynyddion rhag colledion yn codi pan fydd crypto-asedau'n cael eu rhewi a'u trosi'n bunnoedd sterling ac yn colli gwerth o ganlyniad? Os felly, ym mha amgylchiadau?



I weld adroddiad llawn yr ymgynghoriad, ac i ymateb i'r ymgynghoriad, **cliciwch yma**.

102
Find out more at design102.co.uk
Design that makes a difference